CYMRU'N COFIO
WALES REMEMBERS
1914 - 1918

# RHAGLEN 2015



# Rhagair



## Prif Weinidog Cymru Carwyn Jones

Mae bron i flwyddyn ers cychwyn ein rhaglen genedlaethol i goffáu digwyddiadau tyngedfennol 1914-1918. Ar 4 Awst 2014, fe wnaethom ni nodi cychwyn y rhyfel gyda gwasanaeth cenedlaethol yn Eglwys Gadeiriol Llandaf a ddaeth i ben drwy ddiffodd cannwyll fel symbol. Yn ddiweddarach yn yr un mis, cefais y fraint o ddadorchuddio'r gofeb drawiadol newydd yn Langemark i bawb o dras Cymreig a gymerodd ran yn y rhyfel. Roedd y seremoni deimladwy yn enghraifft o'r modd cynhwysol yr wyf yn gobeithio y bydd ein rhaglen yn datblygu dros y flwyddyn i ddod. Rwy'n falch ein bod wedi gallu cefnogi Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig i ddatblygu partneriaeth gyda'r Almaen, Ffrainc a Gwlad Belg i greu arddangosfa ar Gadoediad Nadolig 1914. Bydd dros fil o blant yn gwneud gweithgareddau dysgu sy'n gysylltiedig â'r arddangosfa yng Nghastell Bodelwyddan, Sir Ddinbych yn ystod 2015.

Rwyf wedi cael fy syfrdanu gan y brwdfrydedd sydd gan ysgolion a chymunedau i ymchwilio i'w storïau lleol eu hunain. Mae adnoddau addysgol digidol ac arloesol ar gael, ac mae mwy ar y gweill. Mae Cadw yn cefnogi'r gwaith o atgyweirio ein cofebau rhyfel, ac mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri wedi cefnogi llawer o brosiectau cymunedol.

Ymgyrch Gallipoli, lle collodd cynifer o Gymry eu bywydau, fydd yn cael y lle blaenllaw yn ein digwyddiadau coffa yn 2015. Mae effaith y golled hon ar gymunedau lleol, yn arbennig yn y gogledd, yn stori bwysig i'n rhaglen goffa. Rwy'n edrych ymlaen at flwyddyn brysur arall. Dymunaf ddiolch i'r unigolion a'r sefydliadau lu sy'n parhau i sicrhau bod y cyfnod hwn o goffáu yn cyfoethogi pob un ohonom.



## Syr Deian Hopkin, Cynghorydd Arbennigol y Prif Weinidog ar y Rhyfel Byd Cyntaf

Cafwyd ymateb grymus ymhlith y cyhoedd i'r amrywiaeth o ddigwyddiadau a gweithgareddau a ddechreuodd ym mis Awst y llynedd i goffáu dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf. Bu cannoedd o filoedd o bobl o bob oed yn cymryd rhan yn y digwyddiadau a drefnwyd yn genedlaethol ac yn lleol, a cheir tystiolaeth glir bod pobl erbyn hyn yn llawer mwy ymwybodol nag o'r blaen o arwyddocâd ac effaith y Rhyfel Byd Cyntaf.

Wrth i ni symud ymlaen i gam nesaf y coffáu bydd cyfleoedd i fyfyrio ynghylch y modd y gwnaeth y rhyfel, ac ymwybyddiaeth o ryfel, newid ganrif yn ôl. 1915 oedd y flwyddyn pan ddaeth maint a ffyrnigrwydd didrugaredd y rhyfel i'r amlwg, ac roedd Ymgyrch Gallipoli yn y Dardanelles a fu'n fethiant trasig yn enghraifft glir o hynny. Bydd canmlwyddiant yr ymgyrch hwnnw'n cael ei goffáu nid yn unig yn Awstralia a Seland Newydd, lle mae'r digwyddiadau'n arbennig o fyw yn y cof, ond yng Nghymru hefyd. Yn y cyfamser, bydd llawer o brosiectau addysgol a lansiwyd i ddyfnhau ein dealltwriaeth o effaith y rhyfel ar gymunedau ledled Cymru yn parhau ac yn dwyn ffrwyth yn ystod y flwyddyn nesaf, a bydd y paratoadau ar gyfer digwyddiadau coffáu pwysig a gynhelir yn ystod 2016 a thu hwnt yn parhau hefyd.

Wrth gofio'r digwyddiadau ar faes y gad canrif yn ôl, byddwn hefyd yn ystyried eu heffaith ar ddiwylliant, cerddoriaeth a'r celfyddydau yn ogystal â'r economi a chymdeithas yn gyffredinol.

# Cynnwys











## Prosiectau Rhyfel Byd Cyntaf Ysgolion 02

Cipolwg ar brosiectau coffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf y mae ysgolion yng Nghymru yn eu cyflawni gan ddefnyddio grantiau o £1,000 a ddarparwyd gan Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru.

## Y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig a Chadoediad y Nadolig 04

Yr Is-gadfridog Jonathon Riley sy'n sôn am y rhan a chwaraeodd y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig yng Nghadoediad Nadolig 1914, ac sy'n sôn wrthym am yr arddangosfa ynglŷn â Chadoediad y Nadolig.

## Yr Arglwydd Ninian Crichton-Stuart a Brwydr Loos 06

Dr Jonathan Hicks sy'n sôn am fywyd a marwolaeth swyddog yn y Rhyfel Byd Cyntaf.

## Posteri'r Rhyfel Byd Cyntaf 08

Anna Evans sy'n sôn am brosiect Amgueddfeydd De-orllewin Cymru i goffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf, sef 'Posteri'r Rhyfel Byd Cyntaf: angerdd, propaganda a phatrwm i ddylanwadu ar genedl'.

## Yr 2il Is-gapten Jesse Spyer a'r rhyfel angof ym Macedonia 10

Mae gan Imperial War Museums ddau albwm o ffotograffau sy'n gysylltiedig â gwasanaeth Jesse Spyer gyda 7fed Bataliwn Cyffinwyr De Cymru yn Ymgyrch Salonika.

## Y Cymry yn Gallipoli 12

Anne Pedley sy'n disgrifio rôl y Cymry yn Gallipoli, gan gynnwys 'un o ddiwrnodau duaf' y Rhyfel Byd Cyntaf i ogledd Cymru.

## Rhaglen Amgueddfa Cymru ar gyfer 2015 14

Mae gweithgareddau Amgueddfa Cymru yn canolbwyntio ar y profiad o fyw drwy'r rhyfel ac ar y themâu sy'n ymwneud â cholli a cofio.

## Cofio'r Rhyfel Byd Cyntaf yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru 16

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn coffáu effaith y Rhyfel Byd Cyntaf yng Nghymru drwy raglen eang o brosiectau digidol ac adnoddau ar-lein.

## Ffynonellau cyllid ar gyfer prosiectau Rhyfel Byd Cyntaf 18

Cyngor ynghylch sefydliadau a all gynnig grantiau a chymorth ariannol arall i unrhyw un sydd yn cynllunio prosiect i goffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf yng Nghymru

## Digwyddiadau 20

Rhestr digwyddiadau ar gyfer 2015.


**(clawr) Ail fataliwn Catrawd Sir Fynwy yn y ffosydd yn Le Bizet ym mis Ebrill 1915. Tynnwyd y llun hwn gan y Capten Evelyn Byrde o ail fataliwn Catrawd Sir Fynwy. © Trwy garedigrwydd Amgueddfa Gatrodol y Cymry Brenhinol, Aberhonddu**

**(uchod ar y chwith) Hyfforddiant corfforol, tua 1917. © Amgueddfa Cymru (uchod, ail o'r chwith) Milwyr o'r 38ain Adran (Gymreig) yn Ffrainc ym 1916. © Amgueddfa Gatrodol y Cymry Brenhinol, Aberhonddu**

**(uchod, ail o'r dde) Gwersyll bivouac 7fed Bataliwn Cyffinwyr De Cymru ychydig y tu allan i dref Kukus (Kilkis) yng ngogledd Gwlad Groeg, haf 1916. © IWM (HU 088205)**

**(uchod ar y dde) Poster 'Dydd Gŵyl Dewi'. Trwy garedigrwydd Amgueddfa Sir Gaerfyrddin**

WG24296 Hawlfraint y Goron 2015 OGL



# Ysgol Maes Garmon

**Yn Hydref 2013 cyhoeddodd y Prif Weinidog fod £850,000 o gyllid ar gael i sicrhau gwaddol addysgol yn sgil coffâd canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf, gan alluogi ysgolion uwchradd yng Nghymru i wneud cais am grant o £1,000 i ddatblygu prosiectau arloesol i goffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf. Mae ysgolion wedi cael y rhyddid i ddehongli'r prosiect yn ôl eu dymuniad.**

Diolch i grant o £1,000 gan Lywodraeth Cymru ac arian gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri mae disgyblion Ysgol Maes Garmon wedi bod ar daith anhygoel i godi ymwybyddiaeth am y Rhyfel Byd Cyntaf a'r hyn a adawodd ar ei ôl. Mae eu prosiect wedi canolbwyntio ar effeithiau'r rhyfel ar bobl y gogledd-ddwyrain.

Mae'r disgyblion wedi bod yn ymchwilio, ffilmio ar gyfer dogfen a chyfrannu storïau i lyfr, sef **Ysgol Maes Garmon, Atgofion y Rhyfel Byd Cyntaf**.

Mae'r eitemau a gasglwyd yn cynnwys dyddiaduron milwyr, llythyrau, cardiau post, ffotograffau, medalau, erthyglau o bapurau newydd a mapiau. Cafodd atgynhyrchiad o un o danciau'r Rhyfel Byd Cyntaf ei adeiladu gan ddisgyblion Blwyddyn. 10, a bu'r artist Cefyn Burgess yn helpu'r disgyblion i greu tapestri coffa.

Un o uchafbwyntiau'r prosiect oedd arddangosfa yng Nghanolfan Daniel Owen yn yr Wyddgrug, lle daeth dros 600 o bobl.

Nid yn unig y mae'r profiadau a gafodd y disgyblion wedi cynyddu eu dealltwriaeth o'r Rhyfel Byd Cyntaf, ond maent hefyd wedi datblygu sgiliau megis rhifedd a llythrennedd, ymchwilio, dehongli a chronoleg.

> **'Mae'r prosiect hyn wedi gwneud y rhyfel yn rhywbeth perthnasol i ni fel ysgol ac rwy'n teimlo ein bod ni'n cyfrannu rhywbeth gwerthfawr i'r gymuned gydag ein llyfr, DVD, ac arddangosfa. Mae'n bwysig ein bod ni'n cofio'r rhyfel ac ein bod ni'n dysgu o beth ddigwyddodd canrif yn ôl.'**
>
> **Lowri Brown - Blwyddyn 8**

(uchod) Hyfforddiant corfforol, tua 1917. © Amgueddfa Cymru

(isod) Prosiect ysgol ar y Rhyfel Byd Cyntaf - Ysgol Maes Garmon, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint. © Ysgol Maes Garmon.





# Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd

**I nodi Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf yn 2014, penderfynodd Ysgol Uwchradd Fitzalan ddechrau prosiect uchelgeisiol a pharhaol i roi gwell dealltwriaeth i'r disgyblion o brofiadau'r milwyr.**

Gyda chymorth Matthew Ward o History Needs You, penderfynodd yr Adran Hanes adeiladu atgynhyrchiad o un o ffosydd y Rhyfel Byd Cyntaf, a fyddai'n adnodd dysgu yn ogystal ag yn gofeb.

Roedd y disgyblion yn gyfrifol am lawer o'r gwaith o ddylunio ac adeiladu'r ffos, a chafwyd deunyddiau, £1,000 o grant gan Lywodraeth Cymru a chymorth gan y staff.

Dywedodd Kian Gibbs, a ymunodd â'r tîm adeiladu:

'Byddwn wedi bod yn ofnus yn y ffos, gyda grenadau'n cael eu taflu a ffrindiau'n marw o'ch blaen chi.'

Hefyd, trefnodd yr adran ddiwrnod o weithgareddau, gyda'r disgyblion yn cael eu rhyddhau o'r amserlen am ddiwrnod. Yn ogystal â'r ffos a'r ail-grëwr, gwnaethpwyd pabi allan o bapur sidan, dangoswyd ystadegau ar siart fawr o babi, ymchwiliwyd i arteffactau, a chwaraewyd cerddoriaeth y Rhyfel Byd Cyntaf.

Aeth disgyblion yr Adran Dylunio a Thechnoleg ati i wneud croesau gyda phabi wedi eu lamineiddio ac enw milwr lleol ar bob un.

'Fe wnaethom ni greu'r ffos i goffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf, er mwyn cofio'r rhai a aberthodd eu bywydau wrth ymladd dros eu gwlad a'u rhyddid', medd Jake Holmes.


## Prosiectau eraill

Mae disgyblion o Ysgol Gymunedol Llangatwg yng Nghastell-nedd yn ymchwilio i straeon y 700 a mwy o ddynion, ynghyd ag un wraig, o ardal Castell-nedd a gymerodd ran yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Byddant yn dogfennu eu hymchwil ac yn creu cronfa ddata ddigidol.

Mae disgyblion Blwyddyn 9 o Ysgol Uwchradd Darland yn Wrecsam yn ymchwilio i'r cyfraniad a wnaeth glowyr o Lofa Gresffordd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, a byddant yn creu archif o'u hymchwil mewn cysylltiad ag amgueddfeydd lleol.

Bu disgyblion o Ysgol Uwchradd Woodlands yng Nghaerdydd yn gweithio gyda dau gerddor o Opera Cenedlaethol Cymru i ymchwilio i ganeuon o'r Rhyfel Byd Cyntaf er mwyn creu cadwyn o alawon. Buont wedyn yn perfformio honno gydag OCC, gwesteion a chôr yr ysgol ym mis Mehefin 2014.

Am fanylion pellach ar brosiectau ysgolion ewch i
**www.cymruncofio.org/projects/**





(brig y dudalen) Milwyr o'r 38ain Adran (Gymreig) yn Ffrainc ym 1916. © Amgueddfa Gatrodol y Cymry Brenhinol, Aberhonddu
(uchod) Prosiect ysgol ar y Rhyfel Byd Cyntaf - Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd. © Ysgol Uwchradd Fitzalan

# Y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig a Chadoediad y Nadolig

## Yr Is-gadfridog Jonathon Riley sy'n adrodd stori gyfarwydd sydd bron yn chwedl

Wrth i Nadolig 1914 nesáu, ceisiwyd creu rhyw fath o gadoediad. Cafodd y syniad ei gynnig gan y Pab Benedict XV ddechrau mis Rhagfyr a chafodd ei dderbyn bron yn syth gan yr Almaenwyr, cyhyd â bod pawb arall yn ei dderbyn hefyd. Roedd y gobaith am gadoediad yn wan, ond roedd pob byddin wrthi'n paratoi ar gyfer Nadolig y milwyr. Gorchmynnwyd i 2il Fataliwn y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig ymuno â llinell y frwydr ym mhentref Frelinghien ar y ffin rhwng Ffrainc a Gwlad Belg ar 25 Tachwedd. O flaen pentref Frelinghien, yn rheoli un o gwmnïau 2il Fataliwn y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig, yr oedd y Capten Clifton Inglis Stockwell, gŵr 35 oed a oedd wedi'i gomisiynu yn 1899. Ar yr ochr arall yr oedd cwmni gynnau peiriant 2il Fataliwn Helwyr (Silesia) a oedd yn gwasanaethu gyda 133fed Gatrawd Troedfilwyr Sacsoni, a gâi ei rheoli gan y Barwn Friedrich von Sinner a oedd yn 39 oed.

Mae Dyddiadur Rhyfel 2il Fataliwn y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig a dyddiadur personol C. I. Stockwell yn adrodd hanes digwyddiadau'r bore ar 25 Rhagfyr:

**"Mentrodd y ddwy ochr edrych dros yr ymyl; yna dechreuodd Almaenwr gerdded i lawr y llwybr tynnu i gyfeiriad ein llinellau ni … Yn nes ymlaen dringodd yr Almaenwyr yn eofn allan o'u ffosydd, ond oherwydd bod ein dynion ni wedi'u gwahardd rhag gwneud hynny buont yn taflu tuniau o gorn-bîff, a jam eirin ac afal ac ati allan … roedd y Sacsoniaid yn gweiddi, 'Peidiwch â saethu. Dydyn ni ddim am ymladd heddiw. Fe wnawn ni anfon cwrw atoch.' … Dringais dros y parapet gan alw yn fy Almaeneg gorau ar i Gapten yr ochr arall ddod i'r golwg. Fe wnaethon ni gwrdd o'r diwedd a saliwtio ein gilydd yn ffurfiol … Fe wnaethon ni gytuno i beidio â saethu tan fore trannoeth."**

Ar ochr yr Almaenwyr, roedd yr Is-gapten Johannes Niemann a oedd yn 21 oed yn rheoli un o blatwnau 3ydd Bataliwn y 133fed Gatrawd:

**"Roedd pawb yn ysgwyd llaw â'i gilydd. Yna, gwelwyd pobl yn cyfnewid ychydig bach o bopeth – beth bynnag a oedd ganddynt: tybaco, siocled, schnapps a rhubanau eu rhengoedd, ymhlith llawer o bethau eraill."**

Dechreuodd adroddiadau am y cadoediad ymddangos yn y wasg. Daeth y stori i'r amlwg gyntaf ar 31 Rhagfyr ym mhapurau newydd y Daily News yn Llundain a'r Times yn Efrog Newydd; yna gwelwyd lluniau yn y Daily Sketch, y Daily Mirror a'r Daily Graphic a chafwyd llif cyson o erthyglau wedyn tan ddiwedd mis Ionawr. Nid oedd yr ymatebion swyddogol i'r digwyddiadau yn eu cymeradwyo o gwbl. Dyma a ysgrifennodd Syr John French:

**"Pan glywais am hyn, rhoddais orchmynion yn syth i atal unrhyw ymddygiad o'r fath rhag digwydd eto, a gelwais y penaethiaid lleol i gyfrif yn llym."**

Er gwaethaf yr ymdrechion swyddogol i atal cadoediad, cafwyd ail un byrrach adeg Nadolig 1915 yr oedd y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig yn rhan ohono. Ni wnaethpwyd fawr ddim ymdrech i sicrhau cadoediad yn 1916 ac ni wnaethpwyd unrhyw ymdrech o gwbl yn 1917. Hwyrach bod milwyr y naill ochr a'r llall yn cydymdeimlo â'i gilydd, a bod hyd yn oed




(chwith) Drwm bach 2il Fataliwn y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig. © Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig

((pellaf i'r dde) Tiwnig Gwisg Filwrol 1914-1918. © Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig (i'r dde) Cap Gwasanaeth Maes OR o'r Almaen, y credir iddo gael ei gyfnewid ar dir neb yn ystod Cadoediad y Nadolig. © Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig (cefndir ar y dde) Map o'r Ffosydd yn Frelinghien. Trwy garedigrwydd yr Is-Gadfridog Jonathon Riley




(uchod) Frelinghien. © Saxon Army Museum

rhywfaint o sifalri yn eu plith, ond doedd dim gobaith eu cael i gyfeillachu â'i gilydd erbyn diwedd yr ail flwyddyn o ryfela.

Bu Ymddiriedolaeth Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig yn cydweithredu ag Amgueddfa Byddin Sacsoni yn Dresden, Ymddiriedolaeth Amgueddfa Castell Bodelwyddan, Comiwnau Armentières a Frelinghien yn Ffrainc a Chomiwn Comines-Warneton yng Ngwlad Belg i greu arddangosfa deithiol ynglŷn â'r cadoediad yn ogystal â chyfres o ddigwyddiadau a arweiniodd at gynnal digwyddiad canmlwyddiant yn Frelinghien ym mis Rhagfyr 2014, lle cyfarfu wyrion y ddau gadlywydd dan sylw, von Sinner a Stockwell, mewn man a oedd yn dir neb yn ystod y cadoediad.

Mae'r prosiect hwn, a oedd yn bosibl gyda chymorth Llywodraeth Cymru ac Ymddiriedolaeth Dulverton, yn nodi moment hollbwysig yn hanes Cymru ac Ewrop. Mae'n enghraifft brin o ddigwyddiad coffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf sydd hefyd yn ein cymell i ddathlu, gan ei fod yn adlewyrchu natur ddynol pobl o ba genedl bynnag ynghanol cyflafan.








Paentiad o'r Arglwydd Ninian Crichton-Stuart yng Nghastell Caerdydd. © Cyngor Caerdydd

# Yr Arglwydd Ninian Crichton-Stuart a Brwydr Loos

## Dr Jonathan Hicks sy'n sôn am fywyd a marwolaeth swyddog yn y Rhyfel Byd Cyntaf.

**Brwydr Loos (rhwng 25 Medi a 18 Hydref 1915) oedd y tro cyntaf i fataliwn newydd y Gwarchodlu Cymreig ymladd. Er bod y frwydr honno'n aml yn cael ei chysylltu yn Lloegr â marwolaeth unig fab Rudyard Kipling, ac yn cael ei chysylltu yn yr Alban â marwolaeth nifer enfawr o filwyr, arweiniodd y frwydr hefyd at farwolaeth ffigwr nodedig o Gymru.**

Yng Ngerddi'r Orsedd yng Nghaerdydd, gyferbyn ag Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, saif cerflun efydd trawiadol o swyddog milwyr traed yn y Rhyfel Mawr. Cafodd y cerflun ei naddu yn 1917 gan Syr William Goscombe John, ac mae'n portreadu'r Arglwydd Ninian Crichton-Stuart, sef ail fab trydydd Marcwis Bute. Yn y cerflun gwelir yr Arglwydd Ninian yn edrych tuag yn ôl i gyfeiriad cartref y teulu, sef Castell Caerdydd.

Mae'r arysgrif ar blinth y cerflun yn nodi fel a ganlyn: *Lord Ninian Edward Crichton Stuart Member of Parliament for Cardiff Cowbridge and Llantrisant Lieut-Colonel 6th Batt Welsh Reg - Territorial born 15th May 1883 fell in France at the Battle of Loos fighting bravely for his country 2nd October 1915.*

Pan oedd yn 22 oed ymunodd yr Arglwydd Ninian â Bataliwn 1af Gwarchodlu'r Sgotiaid, ond pan briododd gadawodd y fyddin er mwyn dilyn gyrfa ym maes gwleidyddiaeth.

Fel Unoliaethwr cipiodd sedd Caerdydd oddi ar y Rhyddfrydwyr ym mis Rhagfyr 1910, ac ef oedd y pumed o'r chwe Aelod Seneddol a fu farw yn ystod y rhyfel.

O 1911 ymlaen efoedd prif swyddog 6ed Bataliwn y Gatrawd Gymreig, sef llu tiriogaethol a fu'n recriwtio yn ardal Abertawe.

Ym mis Awst 1914 gwirfoddolodd y dynion i fynd i wasanaethu dramor, ac ar 28 Hydref 1914 gadawsant y Neuadd Ymarfer yn Abertawe. Dyma'r Bataliwn Tiriogaethol Cymreig cyntaf i wasanaethu dramor.

Bu'r bataliwn mewn llinellau cyfathrebu yn ystod ei fisoedd cyntaf yn Ffrainc, cyn mynd i'r ffosydd ger Kemmel ym mis Gorffennaf 1915. Ddiwedd mis Medi 1915 roeddent yn filwyr wrth gefn ar gyfer cam cyntaf Brwydr Loos, ac ar ôl taith o un awr ar bymtheg cawsant eu hanfon i'r ffosydd gyferbyn â Hohenzollern

Redoubt, sef cadarnle anodd ei drechu a oedd wedi'i gipio gan Brydain ar 25 Medi ac a fu'n achos brwydro parhaus wedyn.


Gyda'r nos ar 1 Hydref roedd y 6ed Bataliwn, ynghyd â'r Bataliwn 1af Cymreig, yn rhan o ymosodiad ar ffos Little Willie gerllaw, a llwyddwyd i gipio rhan ohoni. Gan fod y ffrwydron rhyfel yn mynd yn brin a bod yr Almaenwyr yn gwrthymosod yn ffyrnig, dechreuodd y 6ed Bataliwn dyllu twnnel yn gynnar ar 2 Hydref er mwyn cysylltu rheng flaen Prydain â'r dynion yn y rhan o'r ffos a oedd wedi'i chipio, a oedd bellach wedi'i hamgylchynu gan y gelyn. Erbyn y prynhawn roedd y twnnel yn dal yn rhy fyr ac roedd y ffrwydron rhyfel bron â gorffen, felly gorchmynnwyd i'r milwyr adael y ffos a gipiwyd a'i blocio fel na allai'r Almaenwyr eu dilyn. Mae adroddiadau ynghylch sut y cafodd yr Arglwydd Ninian ei ladd yn amrywio, ond mae'n bosibl iddo gael ei saethu yn ei ben gan saethwr cudd pan gamodd ar y step tanio i oruchwylio'r ymadawiad.

Cafodd fersiwn arall o'r hanes, a wrthbrofwyd gan swyddogion y Bataliwn, ei hysgrifennu gan un a oroesodd y frwydr, sef y Sarsiant Russell a nododd fel a ganlyn: 'Pan gafodd ein Cyrnol, yr Arglwydd Ninian Stuart, wybod bod yr Uwchgapten Browning wedi'i adael yn y ffos, bu bron iddo ddrysu gan bryder oherwydd roeddent yn ffrindiau pennaf. Wrth ein harwain at ymosodiad arall er mwyn ceisio achub yr Uwchgapten Browning, collodd ein Cyrnol ei fywyd ei hun. Wrth sefyll i arwain ei ddynion, cafodd yr Arglwydd Ninian ei saethu yn ei ben gan fwled saethwr cudd, a bu farw yn y fan a'r lle.'

Gosodwyd arch yr Arglwydd Ninian Crichton-Stuart mewn cromgell ym Mynwent Tref Béthune yn wreiddiol, ond yn dilyn difrod yn ystod gwanwyn 1918 cafodd ei gladdu yn y fynwent ei hun.

Am dros ddeugain mlynedd bu cyn-filwyr o'i fataliwn yn ymgasglu wrth ei gerflun yng Nghaerdydd bob blwyddyn tua adeg ei farwolaeth er mwyn rhoi teyrnged iddo, a pharhaodd Cymdeithas yr Hen Gymrodyr tan 1968.

Roedd ei enw ynghlwm wrth enw maes Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd am ganrif bron, oherwydd yn 1910 roedd wedi gweithredu fel gwarantwr ar gyfer y maes newydd. Caiff ei goffáu o hyd gan Stand Ninian yn y stadiwm newydd, ac mae ysgol gynradd leol wedi'i henwi ar ei ôl hefyd.



## 'Roedd ei enw ynghlwm wrth enw maes Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd am ganrif bron, oherwydd yn 1910 roedd wedi gweithredu fel gwarantwr ar gyfer y maes newydd'

Mae Dr Jonathan Hicks yn ddiolchgar am gymorth wyres yr Arglwydd Ninian, Marietta Crichton-Stuart, wrth baratoi'r erthygl hon.

(uchod ar y dde) **Cerflun o'r Arglwydd Ninian Crichton-Stuart yng Ngerddi'r Orsedd, Caerdydd. © Llywodraeth Cymru William Holtam**

# PONTIO RHWNG Y GORFFENNOL A'R PRESENNOL

## Anna Evans sy'n esbonio prosiect cyffrous am bosteri

**Mae prosiect Amgueddfeydd De-orllewin Cymru i goffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf, a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri a Llywodraeth Cymru, yn canolbwyntio ar arddangosfa deithiol newydd a chyffrous, sef 'Posteri'r Rhyfel Byd Cyntaf: angerdd, propaganda a phatrwm i ddylanwadu ar genedl'. Mae'r prosiect yn cynnig cyfle ardderchog i ymwelwyr weld casgliad sylweddol o bosteri gwreiddiol o'r Rhyfel Byd Cyntaf, nas gwelir yn aml.**

Ffurfiodd Amgueddfeydd Ceredigion, Sir Gaerfyrddin, Abertawe a Sir Benfro bartneriaeth yn 2009 er mwyn datblygu adnoddau dysgu cydlynol a hunangyfeiriedig ar draws eu pedwar prifsafle, a ategir gan wefan addysgol a gaiff ei chynnal gan gymeriad a grëwyd yn arbennig at y diben, sef Medwyn y Twrch Daear: *www.medwynsmuseums.co.uk/welsh_default.php*. Mae'r prosiect, a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri a Llywodraeth Cymru, wedi bod yn llwyddiant mawr ac mae'r grŵp erbyn hyn wrthi'n ymestyn y bartneriaeth er mwyn darparu arddangosfa deithiol o safon a rhaglen o waith ymgysylltu â'r cyhoedd, a fydd yn canolbwyntio ar y themâu sy'n deillio o gasgliad neilltuol Amgueddfa Sir Gaerfyrddin o bosteri gwreiddiol o'r Rhyfel Byd Cyntaf.

## Yr arddangosfa deithiol

Bydd pob partner yn cynnal arddangosfa a fydd yn cynnwys 31 o bosteri gwreiddiol, maint llawn wedi'u fframio.

Bydd yr arddangosfa deithiol hon, sy'n addas i deuluoedd yn benodol, yn cynnig profiad bywiog o fod mewn amgueddfa ac yn archwilio propaganda, gwaith recriwtio, y ffrynt cartref a chost rhyfel. Bydd yr arddangosfa'n apelio at yr emosiynau a'r synhwyrau, a bydd yn hybu dealluswrydd hefyd. Bydd 'canolfannau gweithgarwch' gydag eitemau y gellir eu cyffwrdd yn sicrhau bod rhywbeth ar gael a fydd at ddant pob ymwelydd. Bydd yr arddangosfa hefyd yn cynnig mynediad i ddeunydd ar gyfer cynulleidfa fwy 'arbenigol', ac yn darparu cyfleoedd i bobl sydd am archwilio gwybodaeth ddyfnach.

Mae'r amgueddfeydd partner wedi ymrwymo nid yn unig i groesawu'r arddangosfa ond hefyd i ymgysylltu â phobl ifanc a disgyblion ysgol. Mae'r posteri gwreiddiol yn cynnig cyfleoedd cyffrous i gyflwyno cwestiynau sy'n ymwneud â dinasyddiaeth, cyfathrebu torfol a dylanwad y cyfryngau, a fydd yn gwneud i ymwelwyr feddwl. Byddwn yn ystyried y posteri nid yn unig fel arteffactau hanesyddol ond hefyd fel enghreifftiau o'r modd y gall gwaith dylunio a'r cyfryngau ddylanwadu ar bobl a phontio rhwng y gorffennol a'r presennol.

## Dyddiadau

**Sir Gaerfyrddin: Ebrill – Mai 2015**
**Abertawe: Gorffennaf – Medi 2015**
**Sir Benfro: Hydref 2015 – Ionawr 2016**
**Ceredigion: Chwefror – Ebrill 2016**




(uchod) Mae'r posteri yma'n ran o'r arddangosfa 'Posteri'r Rhyfel Byd Cyntaf: angerdd, propaganda a phatrwm i ddylanwadu ar genedl'. Trwy garedigrwydd Amgueddfa Sir Gaerfyrddin (cefndir) Medwyn yn Cofio. © Amgueddfeydd De-orllewin Cymru

## Rhoi llais i bobl ifanc

Er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn cael cyfle i gymryd rhan, mae partneriaeth Amgueddfeydd De-orllewin Cymru wedi penodi Hwylusydd Ymgysylltu â Phobl Ifanc. Bydd yr hwylusydd, Anna Evans o 'annacelf', yn gweithio mewn partneriaeth â Gwasanaethau Ieuenctid yng ngogledd Sir Benfro, Abertawe, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion er mwyn gwahodd grwpiau ieuenctid ym mhob ardal i ymateb i'r posteri gwreiddiol a chymryd rhan mewn cyfres o weithdai celf amlgyfrwng a fydd yn galluogi pobl ifanc i fynegi eu canfyddiadau ynghylch y rhyfel mewn modd creadigol ac ysgogol.

Gan ganolbwyntio ar y casgliad o bosteri o'r Rhyfel Byd Cyntaf, bydd pobl ifanc yn gallu mynegi, rhannu a herio eu canfyddiadau ynghylch rhyfel. Bydd y sawl sy'n cymryd rhan yn cael eu hannog i ddefnyddio delweddau cyfoes, cyfeirio at eu profiadau eu hunain a defnyddio ffynonellau hanesyddol i ymateb yn greadigol i'r arddangosfa o bosteri.

## Creu ac arddangos gwaith celf unigryw

Gan ddefnyddio'r posteri i sbarduno creadigrwydd, bydd pobl ifanc yn creu cyfres o baneli a recordiadau sain a fydd yn lleisio eu hymatebion personol i'r posteri ac i ryfel yn gyffredinol. Bydd y rhain yn cael eu cyflwyno ar ffurf arddangosfa dros dro, unigryw mewn lleoliadau cymunedol ar draws y pedair sir. Bydd yr arddangosfa'n amgylchynu'r ymwelydd yn gyfan gwbl ac yn sicrhau bod llais pob unigolyn yn gallu cael ei rannu â chynulleidfa ehangach, a bydd yn galluogi cymunedau lleol i glywed 'lleisiau' unigryw eu pobl ifanc. Caiff enghreifftiau digidol o'r gwaith celf gwreiddiol eu harddangos fel casgliadau ar wefan Casgliad y Werin Cymru.

Os hoffech chi neu'ch grŵp gymryd rhan yn y prosiect ymgysylltu â phobl ifanc, cysylltwch ag:

**Anna Evans**
**annacelf@hotmail.co.uk**
**07779270082**

## *Adnoddau dysgu ac ymweliadau gan ysgolion*

A Bydd pecyn dysgu rhad ac am ddim ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 / Cyfnod Allweddol 3 ar gael ym mis Ebrill 2015 i gefnogi ymweliadau â'r amgueddfeydd a gweithgareddau yn yr ystafell ddosbarth, a gaiff eu hysbrydoli gan y casgliad o bosteri o'r Rhyfel Byd Cyntaf. Bydd y pecyn dysgu'n annog disgyblion ac athrawon i gwestiynu a herio ei gilydd ynglŷn â'u canfyddiadau ynghylch rhyfel. Bydd y cynnwys yn ategu'r casgliad helaeth o adnoddau sydd eisoes ar gael ar Hwb, drwy gynnig gweithgareddau ymarferol creadigol sy'n canolbwyntio ar archwilio safbwyntiau, agweddau a chanfyddiadau ynghylch rhyfel. Bydd cyfeiriadau at hanes lleol a straeon unigolion ym mhob sir yn helpu disgyblion i roi'r posteri, a'u heffaith ar eu cymunedau, mewn cyd-destun.

# Yr 2il Is-gapten Jesse Spyer a'r rhyfel angof yn Macedonia

*Mae gan Imperial War Museums ddau albwm o ffotograffau sy'n gysylltiedig â gwasanaeth Jesse Spyer gyda 7fed Bataliwn Cyffinwyr De Cymru yn Ymgyrch Salonika.*

ARWEINIWYD GAN IWM

LED BY IWM

Ymunodd Spyer, a oedd yn hanu o Reading, ag Iwmyn Berkshire ar 15 Medi 1914. Cafodd ei gyflogi'n organydd yng Nghapel y Coleg Milwrol Brenhinol yn Sandhurst, ac ar 10 Mawrth 1915 cafodd ei gomisiynu'n 2il Is-gapten yng Nghatrawd Hampshire. Bu'n gwasanaethu yn Gallipoli cyn cael ei symud oddi yno i ysbyty yn yr Aifft. Ym mis Ebrill 1916, cafodd ei anfon i 7fed Bataliwn Cyffinwyr De Cymru yn Macedonia.

Yn ei hanterth roedd Byddin Prydain yn Salonika yn cynnwys dros 150,000 o ddynion ac roedd yn rhan o lu rhyngwladol. Roedd y brwydro yn Macedonia yn digwydd ar hyd ffrynt 250 milltir a oedd yn ymestyn o'r Adriatig i aber Afon Struma, a phrif wrthwynebydd y Cynghreiriaid oedd Byddin Bwlgaria. Câi milwyr Bwlgaria eu cefnogi gan luoedd yr Almaen, Awstria-Hwngari a Thwrci. Yn ystod llawer o'r ymgyrch roedd milwyr Prydain yn dal 70 milltir o ffrynt a oedd yn ymestyn o Afon Vardar yn y gorllewin i aber Afon Struma.

Ymunodd Spyer â'r 7fed Bataliwn ddiwedd mis Ebrill 1916, ac mae ei ffotograffau'n dechrau drwy ddangos y bataliwn yn symud o Salonika i gyfeiriad y gogledd yn ystod yr haf hwnnw. Maent yn cynnwys golygfeydd o strydoedd yn Kukus (Kilkis) a golygfa o wersyll bivouac yr uned y tu allan i'r dref. Mae'r babell bivouac syml i'w gweld yn llawer o'i ffotograffau, ac mae'n darlunio profiad a oedd yn gyffredin i luoedd y rheng flaen yn Macedonia: pan fyddent yn gorffwys, yr unig foethusrwydd y gallai'r milwyr ddisgwyl ei gael fyddai bivouac neu loches mewn ceunant neu ar lechwedd. Mae ffotograffau Jesse hefyd yn dangos rhai o'r pethau a oedd i'w gweld yn Salonika: y caffis, glan y môr ac adeiladau hanesyddol, gan gynnwys y Tŵr Gwyn enwog. Cyn 1918, anaml y câi milwyr o rengoedd eraill ganiatâd i fynd i'r ddinas. Yn hytrach, byddai'r fyddin yn creu ei hadloniant ei hun ar ffurf chwaraeon a phartïon cyngherddau. Mae ffotograffau Spyer yn dangos dynion o 7fed Bataliwn Cyffinwyr De Cymru yn paratoi ar gyfer gornest focsio ac yn dangos aelodau




Parti Cyngherddau'r 22fed Adran, 'The Macedons'. Yn ogystal, tynnodd Spyer ddau lun o filwyr wrthi'n nofio ac yn plymio mewn pwll a gafodd ei ffurfio drwy gronni dŵr mewn nant a oedd yn llifo drwy Geunant Vladaja wrth ymyl Doiran.

Gan fod Spyer yn gwasanaethu fel rheolwr platŵn yng Nghwmni 'C', nid yw'n syndod iddo dynnu lluniau grŵp a lluniau unigol o swyddogion a milwyr, gan gynnwys rhingylliaid, signalwyr, cludwyr elorwelyau a rheolwr y cwmni, y Capten E L Lloyd. Yn ogystal, dangosir dynion adran mulod pwn y bataliwn gyda'u llwythi. Oherwydd y prinder ffyrdd yn Macedonia, roedd mulod yn ddull allweddol o gludo cyflenwadau, a oedd yn amrywio o fwyd i ffrwydron rhyfel, i'r unedau blaen. Mae'r tri llun o ddynion Cwmni 'C' yn cael eu hyfforddi i ddefnyddio mygydau nwy'n ddiddorol hefyd. Mae bron yn sicr bod y rhain wedi'u tynnu'n fuan wedi i fyddin Bwlgaria wneud defnydd helaeth o nwy am y tro cyntaf ar 17-18 Mawrth 1917. Yn sgil yr ymosodiad hwnnw cafodd

pump o ddynion 7fed Bataliwn Cyffinwyr De Cymru eu lladd, cafodd 37 eu hanafu a chafodd 80 eu gwenwyno ychydig â nwy, a Chwmni 'C' a ddioddefodd waethaf. Gwelwyd bod yr hen helmedau PH a ddefnyddid ar y pryd yn aneffeithiol a chafodd mygydau bocs eu dosbarthu'n sydyn. Mae ffotograffau Spyer ar y rheng flaen yn dangos milwyr mewn ffosydd ar hyd Afon Vardar ac yn Doiran, ac mae un print yn dangos safle blaen wrth ymyl cadarnle Bwlgaraidd allweddol a elwid yn Petit Couronné. Ceunant dwfn, sef Ceunant Jumeaux, sy'n gwahanu llinellau'r ffosydd yn y fan hon a llwyddodd Spyer i dynnu nifer o ffotograffau yma wrth batrolio tir neb.

Yr hyn sy'n ddiddorol yw'r ffaith nad yw ffotograffau Spyer yn ymdrin o gwbl ag Ail Frwydr Doiran (ar 18–19 Medi 1918). Yn ystod y frwydr honno, disgleiriodd 7fed Bataliwn Cyffinwyr De Cymru mewn ymosodiad ar brif amddiffynfeydd Bwlgaria. Y 7fed Bataliwn oedd yr unig fataliwn Prydeinig yn Ymgyrch Salonika a gafodd un o fedalau milwrol Ffrainc, y Croix de Guerre, a chyflwynwyd Croes Fictoria i reolwr y bataliwn, yr Is-gyrnol Daniel Burges. Ceir printiau mewn un albwm sy'n dangos cynyrchiadau o 'The Chocolate Soldier' yn theatr yr 22fed Adran yn ystod Nadolig 1917 ac ym mis Mehefin 1918, ac efallai fod hynny'n esbonio pam nad oes ffotograffau ar gael o ddigwyddiadau hollbwysig Ail Frwydr Doiran. Mae'r printiau o'r cynyrchiadau'n awgrymu bod Spyer wedi'i secondio i'r theatr a'i fod felly wedi colli'r brwydro yn Doiran. Efallai mai ei ddawn fel organydd biau'r diolch bod ei gofnod ffotograffig o'r rhyfel yn Macedonia wedi parhau hyd heddiw.



(uchod) Dynion o'r 7fed Bataliwn, Cyffinwyr De Cymru'n mwynhau nofio yn ystod haf 1917. © IWM (HU_088193) & PC 1202 & 7908-25

(isod) Gwersyll bivouac 7fed Bataliwn Cyffinwyr De Cymru ychydig y tu allan i dref Kukus (Kilkis) yng ngogledd Gwlad Groeg, haf 1916. © IWM (HU 088205)

(chwith) Caffi ar y pafin yng nghanol Salonika gyferbyn â'r Hotel Angleterre. Milwyr o Brydain, Ffrainc a Serbia sydd yn eistedd wrth y byrddau ac yn cerdded heibio ar y stryd. © IWM (HU 088208) a PC 1202 a 7908-25

***'Pan fyddent yn gorffwys, yr unig foethusrwydd y gallai'r milwyr ddisgwyl ei gael fyddai bivouac neu loches mewn ceunant neu ar lechwedd.'***

## Ewch i www.1914.org

Cymerwch ran yn y coffâd byd-eang i nodi Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf


Cewch wybod beth sy'n digwydd yn eich hardal chwi:

- Gweithgareddau lleol
- Digwyddiadau cenedlaethol



# Y Cymru yn Gallipoli

**Anne Pedley sy'n sôn am brofiadau milwyr o Gymru yn ymgyrch 1915, gan gynnwys y 'Diwrnod Duaf i Ogledd Cymru' yn y Rhyfel Byd Cyntaf.**



(uchod) Milwyr Prydeinig wedi'u hanafu ar fin mynd ar fwrdd llong ysbyty ym Mae Suvla, Gallipoli yn 1915. © IWM (Q13388)

**Erbyn 1915 roedd hi'n amlwg na fyddai'r rhyfel 'drosodd erbyn y Nadolig'. Er mwyn ceisio torri'n rhydd o'r rhyfela mewn ffosydd, a oedd wedi mynd yn sefyllfa ddiddatrys, penderfynwyd creu trydydd ffrynt ar wahân i Ffrynt y Dwyrain a Ffrynt y Gorllewin.**

Yn gynnar yn y flwyddyn datgelodd Prif Arglwydd y Morlys, Winston Churchill, y byddai ymgyrch newydd yn cael ei lansio yn y Dwyrain Canol er mwyn ceisio cael rheolaeth ar y Dardanelles a pharatoi ffordd o Fôr y Canoldir i'r Môr Du, a fyddai'n caniatáu mynediad i'n cynghreiriaid Rwsia.

2015 fydd canmlwyddiant ymgyrch Gallipoli sydd wedi'i serio yng nghof pobl Awstralia a Seland Newydd – ffurfiodd dynion y gwledydd hynny gorfflu enwog o'r enw Corfflu Byddin Awstralia a Seland Newydd (ANZAC). Roedd y ddwy wlad yn genhedloedd ifanc â phoblogaethau bach, ac oherwydd bod dros 11,000 o'u dynion wedi marw a bod bron 25,000 wedi'u hanafu cafodd diwrnod coffáu ei sefydlu cyn gynted â 1916 er mwyn sicrhau na fyddai neb byth yn anghofio am y dynion a gollodd eu bywydau. Gan mlynedd yn ddiweddarach caiff Diwrnod ANZAC, sef 25 Ebrill, ei goffáu ledled y byd gan bobl o Awstralia a Seland Newydd.

Anghofir yn aml mai yn Gallipoli y dioddefodd y Cymry rai o'u colledion mwyaf yn ystod y rhyfel cyfan, yn enwedig yn ystod y glanio ym Mae Suvla ym mis Awst pan aeth y 53fed Adran (Gymreig) i ymladd. Mae Comisiwn Beddau Rhyfel y Gymanwlad yn cofnodi'r holl ddynion o gatrodau Cymreig sydd wedi'u claddu neu'u coffáu yn Gallipoli – ac nid yw'r ffigur hwnnw'n cynnwys yr holl Gymry a oedd yn gwasanaethu gydag unedau milwrol eraill.

Ar ddiwrnod cyntaf y glanio yn Helles yn y de, collodd 2il Fataliwn Cyffinwyr De Cymru dri swyddog a thri ar ddeg o ddynion; erbyn diwedd yr wythnos roedd nifer y sawl a gollwyd wedi cyrraedd dros 50. Arhosodd 2il Fataliwn Cyffinwyr De Cymru yn Helles nes i'r dynion gael eu symud oddi yno ym mis Ionawr 1916. Erbyn diwedd yr ymgyrch yn Gallipoli, roedd 576 o aelodau'r gatrawd yn gelain ar faes y gad yn Gallipoli.

Ond roedd gwaeth i ddod ym mis Awst 1915 pan benderfynwyd y byddai ymosodiad ymhellach i'r gogledd yn Anzac a Bae Suvla yn llwyddo i symud byddin Twrci o benrhyn Gallipoli, sef rhywbeth yr oedd y glanio yn Helles wedi methu â'i wneud. Y bwriad oedd dechrau'r ymosodiad ar 6 Awst 1915 pan fyddai 4ydd Bataliwn Cyffinwyr De Cymru ac 8fed Bataliwn y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig yn dechrau ymladd gyda'r 13eg Adran. Ychydig ddiwrnodau'n ddiweddarach, byddai'r 53fed







Adran (Gymreig), gan gynnwys dynion o 5ed, 6ed a 7fed Bataliwn y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig a'r 4edd a'r 5ed Gatrawd Gymreig, yn ymosod ar Fae Suvla.

Glaniodd 4ydd Bataliwn Cyffinwyr De Cymru ac 8fed Bataliwn y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig yn Anzac ar 6 Awst a gofynnwyd iddynt gipio'r mannau uchel ar hyd Cefn Sari Bair er mwyn ymuno â'r lluoedd a oedd yn ymosod ymhellach i'r gogledd yn Suvla. Cymerodd y bataliwn ran yn yr ymladd ffyrnig yn ardal Russell's Top ac yn y frwydr i gipio ardal Hill 60, a chynorthwyodd dynion o'r 40fed Frigâd ddynion o 3edd Frigâd Marchoglu Ysgafn Awstralia a ddaeth yn enwog am eu hymosodiad ar y Nek drannoeth. Mae Comisiwn Beddau Rhyfel y Gymanwlad yn cofnodi 461 o farwolaethau yn y bataliynau hyn rhwng 4 Awst ac 16 Awst.

Yn Suvla, aeth pob un o'r pum bataliwn o Gymru i ymladd ar 10 Awst ac roedd nifer y bywydau a gollwyd yn arswydus. Rhwng 10 ac 16 Awst collodd y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig 165 o swyddogion a dynion a chollodd y Gatrawd Gymreig 116 o swyddogion a dynion.

Effeithiodd y colledion ym Mae Suvla ar ogledd a chanolbarth Cymru yn benodol, gan fod 5ed, 6ed a 7fed Bataliwn y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig yn fataliynau tiriogaethol lleol. Mae cofgolofnau mewn trefi bach a phentrefi'n tystio i'r colledion hynny. I ogledd Cymru, hwn oedd un o ddiwrnodau duaf y rhyfel cyfan.

Erbyn diwedd 1915, roedd dros 1,300 o ddynion a wasanaethodd mewn catrodau Cymreig yn Gallipoli wedi marw. Chwythodd yr ymgyrch ei blwc a chafodd yr holl filwyr ar benrhyn Gallipoli eu symud oddi yno rhwng mis Rhagfyr 1915 a mis Ionawr 1916.

Brwydrodd y Cymry yn ddewr yn Gallipoli ond prin y cânt eu crybwyll mewn unrhyw hanesion. Dylid cofio amdanynt wrth i'r canmlwyddiant nesáu.

**'Erbyn diwedd yr ymgyrch yn Gallipoli, roedd 576 o aelodau 2il Fataliwn Cyffinwyr De Cymru yn gelain ar faes y gad yn Gallipoli.'**

(uchod ar y chwith) Cofeb Helles, Gallipoli. © Marietta Crichton-Stuart

(uchod ar y dde) Bae Suvla, Gallipoli. © Alun Salisbury

(isod) Ar 25 Ebrill 1915 glaniodd milwyr o Brydain, Awstralia a Seland Newydd ar gyfres o draethau o amgylch trwyn penrhyn Gallipoli i gynorthwyo ymosodiad y Llynges Frenhinol ar y Dardanelles. Yma ar Draeth V, gwelwyd colledion enbyd ymysg y Prydeinwyr. Gellir gweld milwyr marw a milwyr wedi'u hanafu ar y cychod ac ar lan y dŵr, a gwelir y sawl a oroesodd yn cysgodi ar y traeth. © IWM (Q50473)



# Arddangosfeydd, gwaith ymgysylltu a digwyddiadau

*Ffion Fielding sy'n esbonio rhaglen Amgueddfa Cymru ar gyfer 2015.*

**Mae ein gweithgareddau yn Amgueddfa Cymru yn canolbwyntio ar y profiad o fyw drwy'r rhyfel ac ar y themâu sy'n ymwneud â cholli a chofio.**

## Arddangosfeydd

Bydd rhai o'n harddangosfeydd poblogaidd y llynedd yn teithio i amgueddfeydd eraill Amgueddfa Cymru. Bydd yr arddangosfa 'Gwaith a Buddugoliaeth – Diwydiant Cymru a'r Rhyfel Byd Cyntaf' i'w gweld yn Big Pit: Amgueddfa Lofaol Cymru ym Mlaenafon o fis Hydref 2015 ymlaen.

Bydd rhai arddangosfeydd newydd sbon i'w gweld hefyd. Rhwng mis Ionawr a mis Hydref 2015 bydd Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru yng Nghaerllion yn arddangos 'Angau o'r Awyr', sy'n archwilio profiad milwyr yr oesoedd a fu a milwyr yr oes fodern drwy'r modd y mae arfau rhyfel wedi datblygu ar hyd y canrifoedd. Bydd Amgueddfa Lechi Cymru yn canolbwyntio ar ddulliau recriwtio yn yr arddangosfa 'Dros Ryddid a Thros Ymerodraeth', a fydd yn agor ym mis Gorffennaf 2015. Mae'r arddangosfa hon yn ystyried ymateb cymunedau'r chwareli i'r ymgyrch recriwtio a gynhaliwyd cyn i orfodaeth filwrol gael ei chyflwyno. Ym mis Medi bydd pynciau heriol y cyfnod, a oedd yn peri cyfyng-gyngor, yn cael eu trafod drwy gynhyrchiad dramatig a bydd ysgolion lleol a'r cyhoedd yn cael eu hannog i ymateb a chymryd rhan. Bydd ffilm o'r cynhyrchiad yn cynnig adnodd dysgu i ysgolion.

Yn Big Pit: Amgueddfa Lofaol Cymru, bydd yr arddangosfa 'Dai a Tomi' yn canolbwyntio ar brofiad glowyr cyffredin a gafodd eu recriwtio i'r rheng flaen fel twnelwyr arbenigol. Bydd modd gweld yr arddangosfa rhwng mis Chwefror a mis Medi 2015. Mae grwpiau cymunedol wedi bod yn ymwneud yn gyson â'r arddangosfa drwy gasglu a rhannu'r straeon hyn.

## Digwyddiadau a gwaith ymgysylltu â chymunedau


Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod mae gan Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru raglen faith o weithgareddau i'r teulu a gweithgareddau ar gyfer ymgysylltu â chymunedau.

Ym mis Gorffennaf caiff llwybr Castell Sain Ffagan ei lansio, a fydd yn adrodd stori'r castell yn ystod y rhyfel a'r modd y câi ei ddefnyddio fel ysbyty. Caiff rhaglen o sgyrsiau a gweithgareddau i'r teulu ei chynllunio ar gyfer y flwyddyn gyfan, a fydd yn taflu goleuni ar yr hanes cudd hwn.

Mae Sain Ffagan hefyd wedi bod yn cydweithio'n agos â milwyr o'r gorffennol a'r presennol er mwyn cael safbwynt milwr cyfoes ar wrthrychau o'r cyfnod, sy'n rhan o'n casgliadau. Yn ystod y gwanwyn

(isod) Menywod yn cael eu cyflogi i ddadlwytho haearn crai oddi ar wageni rheilffordd yng Ngweithfeydd Dur Pontardawe. Erbyn mis Tachwedd 1918, menywod oedd un o bob deg o'r gweithwyr yn y gweithfeydd dur. © Amgueddfa Cymru





(uchod) Menywod yn gweithio ar dramffyrdd Caerdydd: bu'n rhaid cynllunio gwisgoedd newydd ar gyfer y menwyod a gâi eu cyflogi yn lle dynion ar reilffyrdd a thramffyrdd i wneud swyddi nad oeddent yn swyddi hanfodol. © Amgueddfa Cymru

a'r haf bydd tîm o guraduron yn gweithio gyda milwyr yn y gogledd a'r de i gasglu eu hymatebion i'n casgliadau, er mwyn eu cynnwys yn ein horielau newydd ar ôl i'r gwaith ailddatblygu gael ei gwblhau. Un prosiect cyffrous arall yw ein partneriaeth â Music Theatre Wales a Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, 'Creu Aria'. Mae personél milwrol sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd a myfyrwyr o'r coleg wedi bod yn astudio gwrthrychau o'r cyfnod gyda'i gilydd, a bydd y myfyrwyr yn defnyddio'r gwaith hwn i gyfansoddi cerddoriaeth ar gyfer perfformiad a gyflwynir yn yr Amgueddfa ym mis Gorffennaf 2015.

Caiff rhaglen o ddigwyddiadau a gwaith ymgysylltu â chymunedau Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru ei hariannu'n rhannol gan grant o Gronfa Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog, sy'n cefnogi gwaith ailarddangos a digido casgliadau'r Lluoedd Arfog a gwaith rhaglennu cysylltiedig yn rhan o brosiect ailddatblygu pwysig yn Sain Ffagan.

Drwy gydol y flwyddyn, gyda help ein gwyddonwyr ym maes y gwyddorau naturiol, bydd Amgueddfa Cymru a'n hymwelwyr yn hau hadau pabi, yn eu cyfnewid ac yn eu cynaeafu yn rhan o raglen o weithgareddau a gynhelir yn ein gweirglodd drefol y tu allan i Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.

## Gwaddol digidol

Yn 2015 bydd gwaith yn parhau ar gronfa ddata ddigidol newydd ar-lein o wrthrychau o'r Rhyfel Byd Cyntaf sydd yng nghasgliadau'r Amgueddfa.

Yn rhan o raglen goffáu Cymru, cafodd Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Cymru eu comisiynu gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu adnoddau addysgol dwyieithog ar gyfer ysgolion yng Nghymru. Mae'r rhain yn adnoddau trawsgwricwlaidd ac maent yn cynnwys deunydd sain, deunydd fideo, delweddau a thestun am y Rhyfel Byd Cyntaf. Maent yn cynnwys cynlluniau gwersi a dolenni cyswllt enghreifftiol i'w defnyddio ochr yn ochr â'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Gellir gweld rhestr lawn o gyhoeddiadau ar *http://addysg.llgc.org.uk/rhb1*.



(uchod) 'Creu Aria' - myfyrwyr, milwyr a churaduron yn gweithio ar y prosiect. © Amgueddfa Cymru

Rydym hefyd yn lansio @dyddiadurkate ar Twitter, sef dyddiadur dynes gyffredin sy'n rhannu manylion am ei bywyd gartref mewn cymuned wledig Gymraeg yn Sarnau yn y gogledd. Rhoddodd Kate ei dyddiadur i Amgueddfa Cymru yn yr 1960au. Bob dydd drwy gydol y flwyddyn byddwn yn trydar cofnod byr o'r dyddiadur ac yn gofyn am unrhyw wybodaeth ychwanegol a allai ein helpu i ddeall ei bywyd.



# Coffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn coffáu effaith y Rhyfel Byd Cyntaf yng Nghymru drwy raglen eang o brosiectau digidol ac adnoddau ar-lein sydd ar gael i bawb am ddim. Mae hyn yn helpu i greu etifeddiaeth barhaol ar gyfer ymchwil, addysgu ac ymgysylltu cymunedol gan adael i'r rheini sy'n byw ymhell o'r Llyfrgell flasu ein casgliadau cyfoethog ac unigryw.

## Mynediad i'n hetifeddiaeth ddogfennol

Cafodd *Cymru1914.org,* ein prif archif ddigidol ar y Rhyfel Byd Cyntaf, ei lansio ym mis Tachwedd 2013. Mae'n cynnwys dros 200,000 tudalen o archifau a chasgliadau arbennig Cymru. Cafodd y deunydd ei gasglu o gasgliadau archifau lleol a phrifysgolion dros Gymru gyfan, ynghyd â'r Llyfrgell, i ddatgelu hanesion anhysbys y Rhyfel a'i effaith ar bob agwedd o fywyd, iaith a diwylliant yng Nghymru.

## Adnoddau dysgu digidol

Bydd cynnwys *Cymru1914.org* hefyd yn cael ei ail-bwrpasu i'w ddefnyddio mewn dau brosiect cyffrous o addysg ddigidol y mae'r Llyfrgell yn eu harwain ar hyn o bryd.

## Cymru yn y Rhyfel

Prosiect yw *Cymru yn y Rhyfel* i ddatblygu gweithgaredd addysgol a threftadaeth ar gyfer plant ysgol yng Nghymru i'w cynorthwyo i ddatblygu cofiannau i'r enwau a restrir ar eu cofebion rhyfel lleol.

Caiff y prosiect ei ariannu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru, a Chyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog. Ei fwriad yw annog pobol ifanc i wneud ymchwil hanesyddol drwy wefan ac ap arbennig, a fydd yn cynnwys:









- adran bywgraffiadau a chofebion rhyfel a fydd yn darparu adnoddau i roi cymorth i blant i ymchwilio i fywydau personol a hanes gwasanaeth milwrol y Cymry a fu farw yn y Rhyfel;
- adnodd cyfeiriol 'Theatrau Rhyfel' (gyda llinell amser, ffos/llong ryfel rith, a deunydd perthnasol gwreiddiol ac eilaidd) i ddangos ble bu personél Cymreig yn ymladd.

Mae'r prosiect yn gweithio gyda Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Comisiwn Beddau Rhyfel y Gymanwlad, y Llynges Frenhinol ac ysgolion dros Gymru, a bydd yn cydweithio'n agos ag amryw o sefydliadau a chymunedau lleol mewn partneriaeth fydd yn tyfu.

Gweler *www.walesatwar.org* a *www.llgc.org* am wybodaeth bellach, neu dilynwch @walesatwar ar Twitter.

## Prosiect Addysg y Rhyfel Byd Cyntaf

Partneriaeth rhwng Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Cymru yw *Prosiect Addysg y Rhyfel Byd Cyntaf* sydd wedi'i ariannu gan Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru. Mae'r prosiect yn cynhyrchu adnoddau dysgu digidol sy'n galluogi pobol ifanc yn ysgolion Cymru i ddeall sut wnaeth Cymru a'r byd newid o ganlyniad i'r Rhyfel Byd Cyntaf ac i weld y cynadleddau heddwch o bersbectif Cymreig.

Cyhoeddir yr adnoddau dysgu digidol ar-lein mewn fformatau gwahanol. Wrth eu cynhyrchu defnyddir eitemau gwreiddiol ac eilaidd o gasgliadau'r Llyfrgell a'r Amgueddfa. Ceir elfen ddigido i'r prosiect hefyd. Ymysg yr eitemau diddorol sydd wedi'u clustnodi ar gyfer eu digido yw Rholyn Anrhydedd Sir y Fflint, llawysgrif enfawr sy'n cynnwys gwybodaeth am bob milwr o Sir y Fflint a wasanaethodd yn y Rhyfel; a set sylweddol o fapiau'r cyfnod, gan gynnwys map manwl o'r ffosydd ger Coedwig Mametz.

Gellir llwytho'r adnoddau o Hwb drwy fynd i *https://hwb.wales.gov.uk/* -> Adnoddau -> Rhyfel Byd Cyntaf: Prosiect Addysg. Gellir hefyd ddysgu mwy am y datblygiadau diweddaraf drwy danysgrifio i ffrwd Twitter y prosiect @RhB1addysg neu drwy fynd i *http://addysg.llgc.org.uk/rhb1*. Bydd yr holl adnoddau a gynhyrchwyd fel rhan o'r prosiect i'w gweld ar stondin y Llyfrgell yn Eisteddfod yr Urdd Caerffili, a bydd arddangosfa fechan am Gymru a'r Rhyfel Byd Cyntaf yn ein Hystafell Addysg drwy'r flwyddyn.

## Cofio'r Rhyfel ar y cyd

I gofio canmlwyddiant cychwyn y Rhyfel Byd Cyntaf, mae'r Llyfrgell Genedlaethol yn rhyddhau ystod eang o'i chasgliadau dogfennol ac archifol, a hynny'n ddigidol ac yn rhad ac am ddim i bawb. Y gobaith yw annog myfyrdod ar effaith drawsnewidiol y Rhyfel ar Gymru a chreu gwaddol ystyrlon ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

(isod ar y chwith) 'Anibyniaeth sydd yn galw am ei dewraf dyn', dyddiedig 1914-1918. Trwy garedigrwydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru (isod ar y chwith) 'We're both needed to serve the guns'. Dyddiedig 1915. Trwy garedigrwydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru (uchod ar y chwith) 'New scale of separation allowance.' Dyddiedig 1914-1918. Trwy garedigrwydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru (uchod ar y dde) 'Dowch gyda mi fechgyn!' Dyddiedig 1914. Trwy garedigrwydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru (canol) 'Who made these little islands the centre of the greatest and most powerful Empire the world has ever seen?' Dyddiedig 1915. Trwy garedigrwydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru

# Ffynonellau Cyllid – Prosiectau Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf



© Llyfrgell Genedlaethol Cymru

**Os ydych yn cynllunio prosiect i goffáu Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf yng Nghymru, dyma rywfaint o gyngor i chi ynghylch sefydliadau a all gynnig grantiau a chymorth ariannol arall.**

## Cronfa Dreftadaeth y Loteri Rhaglen 'Y Rhyfel Byd Cyntaf: ddoe a heddiw'

Mae rhaglen 'Y Rhyfel Byd Cyntaf: ddoe a heddiw' Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn darparu grantiau sy'n werth rhwng £3,000 a £10,000 er mwyn i gymunedau goffáu Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf.

Mae cyllid ar gael i helpu grwpiau, cymunedau a sefydliadau neu fudiadau i goffáu'r Canmlwyddiant drwy archwilio, gwarchod a rhannu treftadaeth y Rhyfel Byd Cyntaf – o gofebau, adeiladau a safleoedd i ffotograffau, llythyrau a llenyddiaeth. Mae'n rhaglen dreigl, sy'n golygu y gallwch wneud cais unrhyw bryd, a bydd y ceisiadau a ddaw i law'n cael eu hasesu cyn pen wyth wythnos. *http://cymraeg.hlf.org.uk*.

## Rhaglen 'Ein Treftadaeth' – Cronfa Dreftadaeth y Loteri

Mae'r rhaglen 'Ein Treftadaeth' ar gyfer unrhyw fath o brosiect sy'n ymwneud â threftadaeth genedlaethol, ranbarthol neu leol yn y DU. Mae grantiau ar gael sy'n werth rhwng £10,000 a £100,000.

Croesewir ceisiadau gan sefydliadau neu fudiadau dielw, perchnogion preifat treftadaeth (gan gynnwys unigolion a sefydliadau neu fudiadau dielw) a phartneriaethau. *http://cymraeg.hlf.org.uk*.

## Gwreiddiau Ifanc – Cronfa Dreftadaeth y Loteri

Mae'r rhaglen 'Gwreiddiau Ifanc' ar gyfer prosiectau sy'n ceisio cael pobl ifanc 11–25 oed i ymwneud â'u treftadaeth yn y DU. Mae grantiau ar gael sy'n werth rhwng £10,000 a £50,000 i ariannu partneriaethau rhwng treftadaeth a sefydliadau neu fudiadau ieuenctid, er mwyn helpu pobl ifanc i lunio a gweithredu eu prosiectau eu hunain mewn amgylcheddau diogel. *http://cymraeg.hlf.org.uk*.

## Cadw, Grantiau ar gyfer Cofebau Rhyfel yng Nghymru

Mae'r cynllun hwn wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Cofebau Rhyfel, a bydd yn helpu i ddiogelu cofebau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae grantiau sy'n werth hyd at 70% o'r costau cymwys (hyd at uchafswm o £10,000) ar gael i warchod ac atgyweirio cofebau rhyfel.

Yn ogystal â'r cynllun hwn, mae Cadw hefyd yn cynnig grantiau eraill er mwyn cyfrannu at gostau atgyweirio ac adfer asedau hanesyddol, ac mae'n darparu cyllid cyfatebol ar gyfer prosiectau a gaiff eu harwain gan gymunedau, awdurdodau lleol a'r trydydd sector.

I gael rhagor o wybodaeth ac arweiniad, ewch i'r adran Cymorth, Cyngor a Grantiau ar wefan Cadw: *www.cadw.wales.gov.uk*.

## Yr Ymddiriedolaeth Cofebau Rhyfel

Mae grantiau i atgyweirio a gwarchod cofebau rhyfel ar gael gan yr Ymddiriedolaeth Cofebau Rhyfel.

Gall yr ymddiriedolaeth ddarparu cyngor hefyd ynghylch dulliau priodol o warchod cofebau. *www.warmemorials.org* neu drwy Ffonio *020 7233 7356*.

## Cynllun Grantiau Cofebau

Gallai cymorth ychwanegol fod ar gael drwy'r cynllun hwn a gaiff ei redeg gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yng Nghymru a Lloegr, sy'n ad-dalu'r TAW y mae'n rhaid ei thalu wrth adeiladu, atgyweirio a chynnal a chadw cofebau *www.memorialgrant.org.uk*

## CyMAL - Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru

Mae CyMAL yn darparu nifer o grantiau i hyrwyddo'r gwaith o ddarparu gwasanaethau o safon gan amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd Cymru, a allai gynnwys prosiectau sy'n ymwneud â Chanmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf. Dim ond amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd wedi'u Hachredu a all gael y grantiau hyn, a chaiff ceisiadau eu gwahodd bob blwyddyn.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i adran CyMAL ar wefan Llywodraeth Cymru: *www.wales.gov.uk*

## Cynllun Grantiau Bach Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru

Dan y cynllun hwn caiff grantiau sy'n werth hyd at £5,000 eu cynnig i amgueddfeydd yng Nghymru, ddwywaith y flwyddyn, a rhoddir blaenoriaeth i gefnogi prosiectau llai o faint. Mae prosiectau llwyddiannus yn cynnwys prosiectau sy'n ymwneud â gwaith gwarchod, darparu offer arbenigol, gwasanaeth allgymorth a chyfleoedd dysgu gydol oes, datblygu cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth a darparu cyngor proffesiynol. Rhaid bod amgueddfeydd wedi'u Hachredu a rhaid eu bod wedi ymaelodi â'r Ffederasiwn. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'r dudalen Grantiau ar y wefan ganlynol: *www.welshmuseumsfederation.org*

## Cyngor Celfyddydau Cymru

Os oes dimensiwn diwylliannol neu artistig yn perthyn i brosiect, gallech chi wneud cais am gymorth gan Gyngor Celfyddydau Cymru *www.celfcymru.org.uk* Mae'r sefydliad hwn hefyd yn cynnig cyngor ynghylch sut i wneud cais am gyllid ac yn rhoi manylion nifer o ffynonellau eraill o gyllid sydd ar gael i sefydliadau neu fudiadau ac unigolion ym maes y celfyddydau.

## Ysgolion

Diolch i gyllid newydd gan Lywodraeth Cymru, mae gan bob ysgol uwchradd yng Nghymru gyfle i wneud cais am hyd at £1,000 i ddatblygu prosiectau creadigol ac arloesol i goffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf.

Gall pob ysgol benderfynu beth yw'r ffordd orau o wneud hynny, a gallent weithio gydag ysgolion eraill hefyd ac ymgymryd â phrosiectau ar y cyd. Os oes gan ysgolion ddiddordeb mewn cyflwyno cais, dylent anfon e-bost i'r cyfeiriad canlynol: *FWWCommemorationGrant@Wales.gsi.gov.uk* mwyn cael pecyn i wneud cais am grant.

Yn ogystal â'r cyrff cyhoeddus a restrir yma, mae'n bosibl y bydd elusennau preifat neu fusnesau masnachol yn barod i gefnogi prosiectau coffáu, yn enwedig os oes ganddynt gysylltiad uniongyrchol â'r elusen neu'r busnes.

Gellir cael cymorth ar-lein i ddod o hyd i gyrff sy'n cynnig grantiau ar *www.grantnet.com* ac mae'r Sefydliad Cymorth Elusennau yn cyhoeddi cyfeiriadur rheolaidd o ymddiriedolaethau sy'n cynnig cymorth grant. Mae'r cyfeiriadur ar gael yn aml mewn llyfrgelloedd lleol.

Dewch i ddarganfod mwy am y modd y mae Cymru yn coffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf ac am ffyrdd eraill y gallwch gymryd rhan *www.cymruncofio.org.uk*.

# Digwyddiadau

**Nid yw Llywodraeth Cymru'n gyfrifol am ddigwyddiadau a drefnwyd gan gyrff, unigolion neu grwpiau allannol. Mae'n bosib y bydd yn rhaid neilltuo lle neu dalu i gael mynediad i rai digwyddiadau. Cysylltwch â threfnwyr y digwyddiad yn uniongyrchol am fanylion pellach.**

## TACHWEDD 2013

### 28 Tach 2013 - 11 Tach 2018

### Arddangosfa Ddigidol y Rhyfel Mawr a'r Cymoedd

Merthyr Tudful

http://merthyrww1.llgc.org.uk/cy/items/show/13

Yn ystod digwyddiad yng Ngholeg Merthyr Tudful ar ddydd Iau, 28 Tachwedd 2013 lansiodd John Griffiths AC, y cyn Weinidog Diwylliant a Chwaraeon, arddangosfa ddigidol Y Rhyfel Mawr a'r Cymoedd, a grëwyd gan yr hanesydd Dr Paul O'Leary o Brifysgol Aberystwyth. Mae'r arddangosfa'n ymdrin â chyfres o ddigwyddiadau penodol ym Merthyr Tudful a Chwm Cynon a hefyd yn ystyried sut gallwn goffáu'r gyfres amrywiol a dadleuol o ddigwyddiadau a ddigwyddodd yn ystod 1914-18.

Mae'n amlygu ar brofiad dirdynnol bywyd yn y ffosydd ond mae hefyd yn sôn am yr wrthwynebiad at y rhyfel a'i effaith ar fywyd y tu allan i'r fyddin. Mae'r 'Ymgyrch Gartref' yn ran bwysig o'r arddangosfa. Tynnir sylw at sut newidiwyd bywydau menywod gan y rhyfel a sut gohebwyd ar ddigwyddiadau dadleuol megis streic y glowyr ym 1915. Mae hefyd yn taflu goleuni ar y 'bwgan ysbïo' 1914 a dyfodiad grwpiau o ffoaduriaid o Wlad Belg.

Bydd cyflwyniad ar-lein Dr O'Leary yn aros yng Ngholeg Merthyr Tudful er budd y staff a'r myfyrwyr. Mae'r arddangosfa'n defnyddio llawer iawn o ddeunyddiau a gafodd eu digideiddio fel rhan o'r archif ddigidol ar-lein Y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Profiad Cymreig, gafodd ei lansio yn yr un digwyddiad (gweler *www.cymruncofio.org/the-national-library-of-wales-launches-the-welsh-experience-of-the-first-world-war/*).

## MEHEFIN 2014

### 18 Meh 2014 - 4 Mai 2015

### Cymry'r Rhyfel Mawr: Arddangosfa Arbennig Amgueddfa Genedlaethol y Fyddin yng Nghaerdydd

Firing Line, Cardiff Castle Museum of the Welsh Soldier, Castell Caerdydd, Caerdydd, CF10 3RB

www.cardiffcastlemuseum.org.uk

- Arddangosfa arbennig fydd yn nodi rôl catrodau Cymru yn ystod y Rhyfel Mawr
- Ffotograffau a straeon yn dod â phrofiadau unigryw o'r rhyfel yn fyw
- Crëwyd mewn partneriaeth â Firing Line – Amgueddfa'r Milwr Cymreig, Castell Caerdydd

Agorodd arddangosfa sy'n ymdrin â rôl unigryw catrodau Cymru yn ystod y Rhyfel Mawr yng Nghaerdydd yn ystod haf 2014.

Daw *Cymry'r Rhyfel Mawr* i Firing Line, Amgueddfa'r Milwr Cymreig, Castell Caerdydd drwy ddwylo Amgueddfa Genedlaethol y Fyddin, o Chelsea, Llundain. Mae'r arddangosfa'n cyflwyno arteffactau, ffotograffau a straeon lu o gasgliad enfawr yr Amgueddfa o ddeunydd ar gatrodau fel y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig, Cyffinwyr De Cymru a'r Gatrawd Gymreig.

Chwaraeodd catrodau o Gymru ran allweddol ym mhob cam o'r Rhyfel Byd Cyntaf, a bydd ymwelwyr â'r arddangosfa'n dysgu mwy am straeon a phrofiadau'r milwyr. Bydd yr arddangosiadau'n edrych ar sut yr oedd catrodau'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig, Cyffinwyr De Cymru a'r Gatrawd Gymreig ymhlith y cyntaf i'w hanfon i Ffrainc yn Awst 1914. Cymerodd 2il Fataliwn Ffiwsilwyr Brenhinol Cymru hefyd ran yng Nghadoediad enwog Nadolig 1914.

Bydd *Cymry'r Rhyfel Mawr* hefyd yn gosod profiadau rhyfel catrodau Cymru yng nghyd-destun y Rhyfel Mawr fel rhyfel byd-eang, gan ystyried rhan Cyffinwyr De Cymru yng Ngwarchae Tsingtao, porthladd Almaenig yn Tsieina.

Gan geisio dod â phrofiadau personol milwyr Cymru ar faes y gad yn fyw, mae'r arddangosfa'n canolbwyntio ar brofiadau beunyddiol fel ysgrifennu llythyrau, gan edrych ar wasanaeth post cyflym ac effeithiol y Peirianwyr Brenhinol rhwng Ffrynt y Gorllewin a Phrydain.

## GORFFENNAF 2014

### 15 Gorf 2014 - 31 Hydref 2015
### 10:00yb - 4:30yp

**Arddangosfa: 'Cenhedlaeth Goll'**

Llyfrgell ac Archifau Roderic Bowen, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion, SA48 7ED

http://www.uwtsd.ac.uk/cy/

Arddangosfa o ddeunydd archif sy'n adrodd hanes Coleg Dewi Sant yn ystod y Rhyfel Mawr.

---

### 19 Gorf 2014 - 6 Meh 2015

**Casnewydd a'r Rhyfel Byd Cyntaf**

Newport Museum and Art Gallery, Newport, NP20 1PA

www.newport.gov.uk/museum
Trydar: @newportmuseum

Arddangosfa sydd yn coffáu gwaith caled, ymroddiad ac aberth gan bobl Casnewydd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, ar y ffrynt cartref a thramor.

---

### 21 Gorf 2014 - 30 Meh 2015
### 10:00yb - 5:00yp

**Cychwyn Cofio**

Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis, Gwynedd, LL55 4TY

http://www.amgueddfacymru.ac.uk/llechi/ymweld/

Sut ydyn ni'n cofio rhyfel, a sut y dylem ni ei goffáu? O weithredoedd personol megis gosod blodau wrth fedd neu lun ar y wal, i gofebion cyhoeddus megis cofgolofn pentref neu wasanaeth mewn Eglwys – mae'r weithred o gofio'n ein cyffwrdd ni oll. Drwy'r arddangosfa, byddwn yn eich gwahodd i rannu'ch atgofion a'ch syniadau chi am sut, a pham, y dylem gofio a choffáu.

## AWST 2014

### 1 Awst 2014 - 11 Tach 2018

**Arddangosfa Deithiol - "Gwent yn y Rhyfel Mawr"**

Amryw leoliadau yng Ngwent

www.cymruncofio.org

Trefnwyd yr arddangosfa hon gan gangen Gwent o Gymdeithas Ffrynt y Gorllewin, ac mewn partneriaeth â CyMAL ac Archifau Gwent.

Bydd modd gweld yr arddangosfa deithiol hon mewn amrywiaeth o leoliadau ledled Gwent yn ystod y cyfnod coffáu a fydd yn para pedair blynedd.

Cysylltu: strong@btinternet.com neu 01291 425638

---

### 2 Awst 2014 - 1 Gorff 2015, 10:00yb - 5:00yp

**Ein Dyletswydd Ni: Y Rhyfel Byd Cyntaf a Bwrdeistref Sirol Caerffili**

Winding House, Cross Street, New Tredegar, NP24 6EG

www.your.caerphilly.gov.uk/windinghouse/content/welcome

I goffáu canmlwyddiant dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf, bydd yr arddangosfa bwysig hon yn archwilio sut yr effeithiodd y Rhyfel ar ddynion, menywod a phlant ym Mwrdeistref Sirol Caerffili. O brofiadau'r dynion lleol a fu'n ymladd ar Ffrynt y Gorllewin a thu hwnt, i brofiadau pawb a arhosodd ar y ffrynt cartref yn ne Cymru, bydd yr arddangosfa'n archwilio effaith y Rhyfel ar yr ardal leol drwy wrthrychau, delweddau a deunydd ffilm a sain a fydd wedi'u curaduro yn ofalus.

Cyswllt: wilsose@caerphilly.gov.uk
Ffôn: 01443 822 666
Gwefan: *www.windinghouse.co.uk*

## MEDI 2014

### Medi 2014 - Hydref/Tach 2018

**Arddangosfa 'Caergybi a'r Rhyfel Mawr'**

Amgueddfa Arforol Caergybi, Traeth Newry, Ffordd y Traeth, Caergybi, Ynys Môn, LL65 1YD

www.cymruncofio.org

**Arddangosfa 'Caergybi a'r Rhyfel Mawr'**

Byrddau arddangos deongliadol. Byrddau arddangos ac arddangosfa sy'n ymdrin â phrofiad Caergybi yn ystod 4 blynedd o ryfela. Byddant yn adlewyrchu digwyddiadau'r Rhyfel Mawr fel y bu iddynt effeithio ar Gaergybi.

*Lleoliad*: Prif adeilad yr amgueddfa

*Dyddiad*: Medi 2014 – Hydref / Tachwedd 2018

**Cofeb i Forwyr Caergybi**

Cofeb go iawn i'r holl forwyr o Gaergybi a gollodd eu bywydau ar y môr. Adeiladu'r gofeb sy'n cynnwys yr angor o un o longau Caergybi, HMHS Anglia, a gollwyd yn 1915.

*Lleoliad*: Wrth ymyl yr amgueddfa

*Dyddiad*: Medi 2014

**Ailgyhoeddi'r llyfr 'Holyhead and the Great War'**

Ailgyhoeddi a gwerthu llyfr a ysgrifennwyd yn 1920 sy'n disgrifio profiad Caergybi yn ystod y Rhyfel Mawr.

*Lleoliad*: Yn yr amgueddfa a'r gymuned

*Dyddiad*: 23 Mai 2014

**Cofeb Ryfel Caergybi**

Creu gwefan. Cwblhau gwefan sy'n rhoi bywgraffiad o bawb o Gaergybi a gollodd eu bywydau yn ystod y Rhyfel Mawr.

*https://sites.google.com/site/holyheadwarmemorial19141918/*

*Dyddiad*: Hydref 2014

(llun yn y cefndir) HMS Cornwallis yn saethu at safleoedd byddin Twrci ar ôl i filwyr gael eu symud o Anzac a Suvla. HMS Cornwallis oedd y llong olaf i adael Bae Suvla ar 20 Rhagfyr 1915.
© IWM (Q13682)

## TACHWEDD 2014

### 15 Tach 2014 - 30 Ebr 2016
### 9:00yb - 5:00yp

**Er Cof am ein Harwyr o'r Rhyfel Byd Cyntaf**

Llyfrgell Llandysul, Ceredigion, Llandysul, SA44 4QS

www.haneslllandysulhistory.co.uk

Hanes rhai o'r 390 o ddynion a menywod o'r ardal a fu'n gwasanaethu yn y Rhyfel Byd Cyntaf.

Mae ein harddangosfa'n cynnwys ffotograffau, darnau allan o bapurau newydd ac atgofion gan berthnasau.

Oherwydd prinder lle, dim ond ychydig o'r deunydd y gallwn ei arddangos. Mae croeso i chi edrych drwy ein Ffolderi Archif lle gwelwch chi'r wybodaeth yr ydym wedi dod o hyd iddi.

Mae ymchwilwyr gwirfoddol yn parhau i weithio ar y prosiect hwn. Os oes gennych unrhyw wybodaeth ychwanegol am y sawl y rhoddir sylw iddynt yma, neu am unrhyw unigolion nad ydym wedi'u cofnodi hyd yn hyn, cysylltwch â ni a byddem yn falch o gynnwys y wybodaeth yn yr Archif.

Cysylltu: haneslllandysul@gmail.com

## IONAWR 2015

### Ionawr 2015 - Rhagfyr 2015

**Arddangosfa: Prosiect Addysg y Rhyfel Byd Cyntaf**

Ystafell Addysg Llyfrgell Genedlaethol Cymru

www.llgc.org.uk

Arddangosfa fechan o rai o'r delweddau sy'n cael eu defnyddio i gynhyrchu adnoddau *Prosiect Addysg y Rhyfel Byd Cyntaf* Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Cymru.

### 1 Ionawr 2015 - 31 Rhagfyr 2015

**Flintshire War Memorials**

Sir y Fflint

www.flintshirewarmemorials.com/

Mae Flintshire War Memorials yn ymchwilio i ac yn cofnodi Cofebau Rhyfel Mawr Sir y Fflint. Os hoffech chi gymryd rhan, neu am fanylion pellach am ddigwyddiadau yn Sir y Fflint, ewch i'r wefan: *www.flintshirewarmemorials.com* neu dilynwch ni ar Twitter: @namesonstone

### 11 Ionawr 2015 - 14 Ebrill 2015

**Cadoediad Nadolig 1914 - a thu hwnt**

Castell Bodelwyddan, Bodelwyddan, Ger Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 5YA

www.bodelwyddan-castle.co.uk

Yn ystod Nadolig 1914 cafwyd cyfres o gadoediadau answyddogol ar hyd Ffrynt y Gorllewin yn Ewrop. Daeth milwyr o ddwy ochr y rhyfel ynghyd ar dir neb; buont yn rhannu straeon ac arwyddion o gyfeillgarwch, a buont hyd yn oed yn chwarae pêl-droed. Ni ddigwyddodd yr achlysur hynod hwn fyth wedyn.

Mae 'Cadoediad Nadolig 1914 – a thu hwnt' yn rhoi sylw i gadoediad a ddigwyddodd rhwng aelodau'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig a Chatrawd Frenhinol Sacsoni. Thema gyffredinol yr arddangosfa yw heddwch a chymodi, ac mae hefyd yn archwilio agweddau eraill ar fywyd yn y ffosydd, megis hiwmor tywyll, celf a barddoniaeth, a cheir adran ychwanegol ar y ffyrdd annisgwyl yr effeithiodd y rhyfel ar fywydau pobl gartref. Mae'r arddangosfa yn bartneriaeth rhwng amgueddfeydd ac archifau yng Nghymru a'r Almaen, ac fe'i cefnogir gan CyMAL ac Ymddiriedolaeth Dulverton.

### 24 Ionawr 2015 - 9 Mai 2015

**Arddangosfa: Beth sy'n Newydd?: Derbynion Diweddar**

Llyfrgell Genedlaethol Cymru

www.llgc.org.uk

Arddangosfa sy'n dod â rhai o'r trysorau diweddaraf i gyrraedd casgliad cynyddol y Llyfrgell ynghyd. Yn cael eu dangos am y tro cyntaf, mae'r gweithiau yma yn dathlu'r amrywiaeth yng nghasgliadau'r Llyfrgell.

Yn cynnwys:

Y GYRRWR JOHN PARRY

Casgliad o bapurau John Parry (1888-1965) o Dderwen, Sir Ddinbych, yn ymwneud â'i wasanaeth fel Gyrrwr i'r Cad-fagnelwyr Brenhinol yn Ffrainc a Gwlad Belg yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Hwn yw un o'r casgliadau gorau o bapurau'n ymwneud â phrofiadau milwr cyffredin yn y Rhyfel Mawr. Mae'n cynnwys ei ddyddiaduron ar gyfer 1917 a 1918, ac amryfal ddogfennau'n ymwneud ag ymuno â'r fyddin, hyfforddiant, a dadfyddiniad, ynghyd â thaflenni propaganda a ollyngwyd tros feysydd y gad yn Ffrainc.

NLW ex 2865

### 31 Ionawr 2015 - 15 Hydref 2015
### 10:00yb - 5:00yp

**Angau o'r Awyr**

Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru, Stryd Fawr, Caerllion, NP18 1AE

www.amgueddfacymru.ac.uk/rufeinig/ymweld/

Ymchwiliad i'r newid mewn arfau a thaflegrau ymladd o bell, fel y catapulta a saethyddiaeth, rhwng oes y Rhufeiniaid a'r Rhyfel Byd Cyntaf. Pa effaith oedd y newidiadau hyn yn ei gael ar y milwyr.

## CHWEFROR 2015

### 11 Chwefror 2015 - 11 Rhagfyr 2015

**Gweithdai: Bywyd Tomi yn y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig Sesiynau i Ysgolion**

Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig, Castell Caernarfon, Caernarfon, Gwynedd, LL55 2AY

www.rwfmuseum.org.uk/cym/index.html

Rydym yn cynnig gweithdai RHAD AC AM DDIM i ysgolion am y Rhyfel Byd Cyntaf. Gall y dosbarth cyfan wisgo fel Tomis yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Bydd cyfle i drin a thrafod arteffactau go iawn a chopïau o arteffactau o'r cyfnod hwnnw.

Cysylltwch â ni i gael rhagor o fanylion drwy ffonio 01286 673362 neu ebostio rwfmuseum1@btconnect.com.

### 14 Chwefror 2015 - 6 Medi 2015 9:00yb - 5:00yp

**Arddangosfa: Dai a Tomi**

Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru, Blaenafon, Torfaen, NP4 9XP

http://www.amgueddfacymru.ac.uk/bigpit/ymweld/

Cewch glywed hanesion personol glowyr a aeth i'r rhyfel fel twnelwyr. Bydd yr arddangosfa'n ymwneud â chymunedau drwy ofyn i deuluoedd am hanesion personol o faes y gad.

## MAWRTH 2015

### 2 Mawrth 2015 - 31 Mai 2015 10:00yb - 4:00yp

**Abertawe yn y Rhyfel Byd Cyntaf - Ymosod ar Gallipoli**

Llawr Cyntaf, Llyfrgell Ganolog Abertawe, Y Ganolfan Ddinesig, Heol Ystumllwynarth, Abertawe, SA1 3SN

www.abertawe.gov.uk/Llyfrgelloedd

Arddangosfa o erthyglau papur newydd cyfoes, ffotograffau a deunydd arall sy'n canolbwyntio ar Ymgyrch Gallipoli a ddechreuodd ym mis Ebrill 1915. Bydd yn cyd-fynd â'r sgwrs am Gallipoli a gynhelir yn y Llyfrgell Ganolog ar 11 Ebrill. Mae'r arddangosfa hefyd yn rhoi sylw i gysylltiadau lleol â suddo'r Lusitania ym mis Mai a digwyddiadau eraill 1915. Mae'r arddangosfa hon yn rhan o gyfres barhaus Llyfrgelloedd Abertawe o sgyrsiau ac arddangosfeydd sy'n coffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf. Gofynnwch yn eich llyfrgell leol am ragor o fanylion.

## EBRILL 2015

### 11 Ebrill 2015 2:00yp - 3:00yp

**John White: 'Ymgyrch Gallipoli'**

Llyfrgell Ganolog Abertawe, Y Ganolfan Ddinesig, Heol Ystumllwynarth, Abertawe, SA1 3SN

www.abertawe.gov.uk/Llyfrgelloedd

Sgwrs Astudiaethau Lleol rad ac am ddim yn yr Ystafell Ddarganfod, Llawr Cyntaf, Llyfrgell Ganolog Abertawe.

Bydd y sgwrs hon gan John White, sy'n arbenigwr ar Ymgyrch Gallipoli ac sydd wedi ymweld â lleoliad y glanio droeon, yn coffáu canmlwyddiant dechrau'r ymgyrch. Bydd yn ystyried sut yr aeth cynllun mentrus i fyrhau'r rhyfel o'i le yn ddifrifol, ac yn benodol bydd yn ystyried cyfraniad milwyr o Abertawe a Chymru i'r ymladd ffyrnig yn y Dardanelles.

### 21 Ebrill 2015 - 31 Mai 2015

**Arddangosfa: 'Cadoediad y Nadolig'**

Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd

www.amgueddfacymru.ac.uk/caerdydd/ymweld/

Cadoediad y Nadolig: Cofio'r cadoediadau digymell a ddigwyddodd ar hyd Ffrynt y Gorllewin yn Ewrop.

### 23 Ebrill 2015

**Golygathon Gallipoli Rhyfel Byd Cyntaf**

Llyfrgell Genedlaethol Cymru

https://cy.wikipedia.org/wiki/Defnyddiwr:Jason.nlw/Golygathon_Gallipoli_RhBC

Gan gyd-fynd â chofio Gallipoli, bydd y golygathon hwn yn dod ag aelodau'r cyhoedd, arbenigwyr a staff LlGC ynghyd i greu a chyfoethogi cynnwys sy'n ymwneud ag ymgyrch Gallipoli yn y Rhyfel Byd Cyntaf ar Wicipedia (Cymraeg a Saesneg).

### 24 Ebrill 2015 1:05yp

**Sgwrs: 'Mae merched Cymru'n frwydrwyr da': gwaith menywod yng Nghymru yn y Rhyfel Byd Cyntaf**

Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd

www.amgueddfacymru.ac.uk/caerdydd/ymweld

Bydd Thomas George, sy'n Ymchwilydd ym Mhrifysgol Caerdydd, yn archwilio'r gwahanol fathau o swyddi a wnaed gan fenywod yn ystod y

(llun yn y cefndir) Milwyr yng Ngwersyll Milwrol Trawsfynydd, Gogledd Cymru. Trwy garedigrwydd Amgueddfa Cymru

Rhyfel Byd Cyntaf ac yn syth ar ôl y rhyfel, a'u profiadau amrywiol o fyd gwaith. Beth oedd barn y menywod am eu gwaith? A beth oedd ymateb pobl eraill yn y gymdeithas?

### 24 Ebrill 2015 2:00yp

**Digwyddiad: 'Rhosynnau Sir Amwythig yn Nhir Neb'**

Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd

www.amgueddfacymru.ac.uk/caerdydd/ymweld/

Bydd y Dr John Kenyon yn darllen o ddyddiaduron dwy chwaer a fu'n gwasanaethu mewn ysbytai ar Ffrynt y Gorllewin yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

### 24 Ebrill 2015 6:00yh - 7:30yh

**Digwyddiad: Dadorchuddio cerflun 'Pob Un yn Cael ei Gofio' gan Y Lleng Brydeinig Frenhinol**

Heol y Santes Fair, Caerdydd

www.britishlegion.org.uk/about-us/the-legion-near-you/legion-in-wales a www.everymanremembered.org/

Mae'r Lleng Brydeinig Frenhinol yn cydweithio â Chomisiwn Beddau Rhyfel y Gymanwlad i sicrhau fod cenedlaethau'r dyfodol yn cofio'r sawl a gollodd eu bywydau yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae'r Lleng yn dymuno bod pob dyn a menyw ar draws y Gymanwlad a gollodd eu bywydau'n cael eu cofio gan genhedlaeth heddiw. Dyma'ch cyfle i gymryd rhan mewn gweithred coffa wirioneddol hanesyddol ac arwyddocaol.

Mae 24 Ebrill yn gyfle i Gofio bywydau'r sawl o Gymru y lladdwyd yn ystod Ymgyrch Gallipoli yn dilyn y glaniadau ar 25 Ebrill 1915. Dadorchuddio'r cerflun 'Pob Un yn Cael ei Gofio' y tu allan i ganolfan galw heibio'r Lleng Brydeinig Frenhinol yng Nghaerdydd fydd dull swyddogol Cymru o nodi'r digwyddiad hwnnw.

## MAI 2015

### 4 Mai 2015 - 12 Gorffennaf 2015 11:00yb - 5:00yp

**Arddangosfa: Lusitania a Phropaganda Rhyfel**

Amgueddfa Powysland

www.cymruncofio.org

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'r curadur ar 01938 554656 neu powysland@powys.gov.uk.

### 7 Mai 2015 - 10 Mai 2015 1:15yp - 10:30yh

**Ymweliad â safle: 'Dilyn Ôl Traed Milwyr Sir Fynwy a Gwent'**

Taith o gwmpas Ypres, Gwlad Belg

www.monmouthshire.gov.uk/wp-content/uploads/2013/12/WFA-MONS-TRIP.pdf

Ymunwch ag aelodau cangen Gwent o Gymdeithas Ffrynt y Gorllewin ar daith i feysydd y gad yn ardal Ypres a'r Somme – ardaloedd sy'n gysylltiedig ag unedau o Sir Fynwy a Gwent – gan gynnwys y man lle cafodd llawer o filwyr Catrawd Sir Fynwy eu lladd ar 8 Mai 1915.

Cysylltu: strong@btinternet.com Ffôn. 01291 425638.

### 9 Mai 2015 11:00yb - 4:00yp

**Gweithgaredd: Cyfnewid hadau'r weirglodd a hau hadau pabi**

Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd

www.amgueddfacymru.ac.uk/caerdydd/ymweld/

Dewch â'ch hadau i'w cyfnewid â garddwyr eraill a helpwch ni i hau hadau pabi yn ein Gweirglodd Drefol newydd. Gallwch greu pelen o hadau pabi hefyd i fynd adref gyda chi.

### 15 Mai 2015 7:30yh

**Sgwrs: Troedio Meysydd y Gad**

Yr Hen Gydweithfa, Maen Alaw, Penmaenmawr, Conwy

www.penmaenmawrmuseum.co.uk/Cymraeg/

Cyflwyniad PowerPoint ynglŷn â meysydd y gad y Somme a chyngor ar deithio, llety a sut i baratoi ac ymchwilio ar gyfer taith i droedio'r un camau â'n cyndeidiaid a frwydrodd yn y Rhyfel Byd Cyntaf.

### 25 Mai 2015 - 29 Mai 2015

**Digwyddiad: 'Bwâu a Ffyn Tafl'**

Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru

www.amgueddfacymru.ac.uk/rufeinig/ymweld/

Beth am roi cynnig ar saethyddiaeth a chreu eich model gweithredol eich hun o gatapwlt? Mae'r digwyddiad hwn yn addas i bobl o bob oed, ac mae'n cyd-fynd â'r arddangosfa '*Gwrthdaro – Angau o'r Awyr*'.

### 25-30 Mai 2015

**Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Eisteddfod yr Urdd**

Maes Eisteddfod yr Urdd, Caerffili

www.llgc.org.uk

Bydd stondin Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar Faes Eisteddfod yr Urdd yn rhoi sylw i adnoddau *Prosiect Addysg y Rhyfel Byd Cyntaf* Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Cymru, ac Ap *Cymru yn y Rhyfel*.

### 26 Mai 2015 - 29 Mai 2015 11:00-13:00 a 14:00-16:00

**Gweithgaredd i'r teulu: 'Bwyd a'r Rhyfel'**

Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru

**www.amgueddfacymru.ac.uk/sainffagan/ymweld/**

Oedden nhw wir yn bwyta llygod mawr wedi'u stiwio yn y ffosydd? A yw tomato wedi'i stwffio neu gyrri cnau castan yn swnio fel swper blasus? Dewch i ddarganfod pa fath o fwyd yr oedd pobl yn ei fwyta yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, a rhoi cynnig hyd yn oed ar baratoi ychydig o'r bwyd eich hun.

## MEHEFIN 2015

### Mehefin 2015 - Rhagfyr 2015

**Golygathon Rhyfel Byd Cyntaf**

Lleoliad i'w gadarnhau

**http://cy.wikipedia.org/wiki/Hafan**

Bydd y golygathon yn dod ag aelodau'r cyhoedd, arbenigwyr a staff LlGC ynghyd i greu a chyfoethogi cynnwys sy'n ymwneud â'r Rhyfel Byd Cyntaf ar Wicipedia (Cymraeg a Saesneg).

### 1 Mehefin 2015 - 31 Awst 2015 10:00yb - 4:00yp

**Abertawe yn y Rhyfel Byd Cyntaf - Arwyr yn y Rhyfel**

Llyfrgell Ganolog Abertawe, Y Ganolfan Ddinesig, Heol Ystumllwynarth, Abertawe, SA1 3SN

**www.abertawe.gov.uk/Llyfrgelloedd**

Arddangosfa o erthyglau papur newydd cyfoes, ffotograffau a deunydd arall sy'n canolbwyntio ar orchestion milwrol pobl leol. Mae'r arddangosfa hon yn rhan o gyfres barhaus Llyfrgelloedd Abertawe o sgyrsiau ac arddangosfeydd sy'n coffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf.

### 6 Mehefin 2015 a 7 Mehefin 2015 11:30, 13:00 a 14:30

**Digwyddiad i'r teulu: Hanesion Hyll y Rhyfel**

Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe

**www.amgueddfacymru.ac.uk/abertawe/**

Dewch i gwrdd â milwr sydd wedi teithio mewn amser, er mwyn clywed straeon o'r ffosydd a thrin a thrafod rhai arteffactau o gyfnod y rhyfel.

### 20 Mehefin 2015

**'Her WAAT4' a'r Gwarchodlu Cymreig**

Aberhonddu

**www.wg100.co.uk/wg100/**

Ymunwch â'r Her WAAT4, sef digwyddiad 'chwilio'r ffordd' 30/40km o hyd ym Mannau Brycheiniog. Gall tîm a fydd yn cynnwys o leiaf 4 ohonoch ymuno ac ymgymryd â'r her ar eich cyflymder eich hun. Mae'r digwyddiad hwn yn rhan o ymgyrch 'WG100' y Gwarchodlu Cymreig.

Bydd yr ymgyrch yn digwydd rhwng mis Mehefin a mis Medi 2015 mewn 19 o wahanol wledydd; erbyn diwedd y prosiect bydd dros 200 o filwyr a llu o gyn-filwyr ac aelodau o deulu'r Gatrawd wedi rhedeg marathon.

Caiff unrhyw rai sydd â chysylltiad â'r Gwarchodlu Cymreig eu hannog i gymryd rhan – gallwch ymwneud â'r ymgyrch 'WG100' mewn nifer o ffyrdd. I gael manylion am sut i ymgeisio, ewch i *www.wg100.co.uk/join-in-with-a-marathon/*

I nodi'r canmlwyddiant eleni, bydd y Gwarchodlu Cymreig yn rhedeg dros gant o farathonau ar draws 19 o wledydd.

### 20 Mehefin 2015

**'Marathon Llwybr Eryri' a'r Gwarchodlu Cymreig**

Llanberis, Gwynedd

**www.wg100.co.uk/wg100/**

Nid yw'r marathon hwn ar hyd llwybr yn addas i'r gwangalon (er bod modd dewis rhedeg hanner marathon hefyd!). Bydd y Gwarchodlu Cymreig yn anfon pedwar o redwyr i gystadlu yn y digwyddiad hwn i redwyr elît; ymunwch er mwyn cymryd rhan neu dewch draw i gefnogi. Mae'r digwyddiad hwn yn rhan o ymgyrch 'WG100' y Gwarchodlu Cymreig.

Am fanylion pellach ynglyn ag ymgyrch 'WG100', gweler digwyddiad 'Her WAAT4' ar 20 Mehefin 2015.

### 21 Mehefin 2015

**'Triathlon Sbrint Dinbych' a'r Gwarchodlu Cymreig**

Dinbych, Sir Ddinbych

**www.wg100.co.uk/wg100/**

Bydd tîm triathlon y Gwarchodlu Cymreig yn cymryd rhan yn y triathlon sbrint hwn er mwyn ymarfer ar gyfer digwyddiadau a gynhelir yn ddiweddarach yn yr haf. Mae croeso i chi ymuno a chymryd rhan - triathlon sbrint ydyw, felly dyw'r rasys ddim yn ofnadwy o bell. Mae hwn yn ddigwyddiad gwych i'r sawl sy'n dechrau arni. Mae'r digwyddiad hwn yn rhan o ymgyrch 'WG100' y Gwarchodlu Cymreig.

Am fanylion pellach ynglyn ag ymgyrch 'WG100', gweler digwyddiad 'Her WAAT4' ar 20 Mehefin 2015.

(llun yn y cefndir) Adrannau Gynnau Lewis 6ed Bataliwn y Gatrawd Gymreig © Amgueddfa Gatrodol y Cymry Brenhinol

## 22 Meh 2015 - 26 Meh 2015

### 'Ras Cefn y Ddraig' a'r Gwarchodlu Cymreig

Conwy

www.wg100.co.uk/wg100/

Ras Cefn y Ddraig yw un o'r marathonau anoddaf yn y byd a gynhelir dros fwy nag un diwrnod, a bydd yn golygu rhedeg 300km i Landeilo mewn pum diwrnod. Bydd dau o redwyr elît y Gwarchodlu Cymreig yn cymryd rhan yn y ras a bydd angen eich cefnogaeth chi arnynt bob cam o'r ffordd. Mae'r ras yn dilyn y mynyddoedd sy'n ffurfio asgwrn cefn daearyddol Cymru; os ydych yn byw'n agos i lwybr y ras, dewch draw i annog y rhedwyr! Mae'r digwyddiad hwn yn rhan o ymgyrch 'WG100' y Gwarchodlu Cymreig.

Am fanylion pellach ynglyn ag ymgyrch 'WG100', gweler digwyddiad 'Her WAAT4' ar 20 Mehefin 2015.

## 27 Mehefin 2015

### 'Marathon y Mynyddoedd cyn Canol Nos' a'r Gwarchodlu Cymreig

Aberhonddu, Powys

www.wg100.co.uk/wg100/

Dyma farathon arall a gynhelir yn Aberhonddu, ond mae hwn ychydig yn wahanol i'r arfer: mae'r marathon yn dechrau am 1730 ac mae'n rhaid i'r rhedwyr orffen y ras erbyn canol nos. Mae'r digwyddiad hwn yn rhan o ymgyrch 'WG100' y Gwarchodlu Cymreig.

Am fanylion pellach ynglyn ag ymgyrch 'WG100', gweler digwyddiad 'Her WAAT4' ar 20 Mehefin 2015.

# GORFFENNAF 2015

## 2 Gorf 2015 - 4 Gorf 2015

### 'Penwythnos Marathon Cymru' a'r Gwarchodlu Cymreig

Dinbych-y-pysgod, Sir Benfro

www.wg100.co.uk/wg100/

Nofio am 2.4 o filltiroedd ddydd Gwener, yna beicio am 112 o filltiroedd, a gorffen drwy redeg Marathon Cymru ddydd Sul. Ymunwch ag un neu bob un o'r digwyddiadau hyn a fydd yn cael eu cynnal ynghanol harddwch cefn gwlad Sir Benfro. Ymunwch â'r criw dethol o'r Bataliwn a fydd yn cymryd rhan. Mae'r digwyddiad hwn yn rhan o ymgyrch 'WG100' y Gwarchodlu Cymreig.

Am fanylion pellach ynglyn ag ymgyrch 'WG100', gweler digwyddiad 'Her WAAT4' ar 20 Mehefin 2015.

## 4 Gorf 2015 - 4 Hydref 2015

### Arddangosfa: 'Pabi'r Coffáu'

Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe

www.amgueddfacymru.ac.uk/abertawe/ymweld/

Bydd yr arddangosfa hon yn ymchwilio i'r cysylltiad rhwng y defnydd diwylliannol a wneir o'r pabi er mwyn coffáu a gwyddor bioamrywiaeth – sef astudiaeth o rywogaethau planhigion ac anifeiliaid yn yr amgylchedd naturiol.

## 6 Gorf 2015 - 10 Gorf 2015

### Sgyrsiau a theithiau: Castell Sain Ffagan a'r Rhyfel Byd Cyntaf

Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru

www.amgueddfacymru.ac.uk/sainffagan/ymweld/

Cynhelir wythnos o sgyrsiau a theithiau i gyd-fynd â digwyddiad lansio Llwybr Castell Sain Ffagan. Bydd y llwybr hwn yn datgelu hanesion cudd castell a gerddi Sain Ffagan yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, a chaiff ei gefnogi gan gynllun grant Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog.

## 7 Gorffennaf 2015

### Perfformiad: 'Creu Aria'

Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru

www.amgueddfacymru.ac.uk/sainffagan/ymweld/

Dewch i glywed ariâu sydd newydd gael eu cyfansoddi, a ysgrifennwyd er mwyn ymateb i gasgliadau'r Rhyfel Byd Cyntaf a hanes Ysbyty Mintai Cymorth Gwirfoddol y Groes Goch Sain Ffagan. Cânt eu perfformio mewn lleoliadau ar draws y safle. Mae'r prosiect Creu Aria yn brosiect cydweithredol rhwng Music Theatre Wales, Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru a chynllun grant Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog.

## 10 Gorffennaf 2015

### 'Marathon Beicio Mynydd' a'r Gwarchodlu Cymreig

Bala, Gwynedd

www.wg100.co.uk/wg100/

Nid yw'r manylion wedi'u cyhoeddi eto ond byddwn yn ymgymryd â marathon beicio mynydd yn y Bala a hoffem eich annog chi i gymryd rhan hefyd. Bydd rhagor o wybodaeth ar gael maes o law – chwiliwch am y manylion diweddaraf ar flog 'WG100'. Mae'r digwyddiad hwn yn rhan o ymgyrch 'WG100' y Gwarchodlu Cymreig.

Am fanylion pellach ynglyn ag ymgyrch 'WG100', gweler digwyddiad 'Her WAAT4' ar 20 Mehefin 2015.

### 20 Gorf 2015 - 31 Ionawr 2016

**Arddangosfa: ‘Dros Ryddid a Thros Ymerodraeth’**

Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis

www.amgueddfacymru.ac.uk/llechi/ymweld/

Arddangosfa sy’n ystyried ymateb cymunedau’r chwareli i’r ymgyrch recriwtio cyn i orfodaeth filwrol gael ei chyflwyno, gan archwilio’r rhesymau pam yr oedd y cymunedau hyn yn ei chael yn anodd ymateb fel y disgwylid iddynt wneud.

## AWST 2015

### 1 Awst 2015 2:00yp - 3:00yp

**Gwilym Games, ‘Y Saethyddion ac Angylion Mons - Un o Chwedlau’r Rhyfel Mawr’**

Llyfrgell Ganolog Abertawe, Y Ganolfan Ddinesig, Heol Ystumllwynarth, Abertawe, SA1 3SN

www.abertawe.gov.uk/Llyfrgelloedd

Ym mis Awst 2014 bu tref Mons yng Ngwlad Belg yn coffáu dechrau’r rhyfel a Brwydr Mons drwy gynnal arddangosfa 3D enfawr o oleuadau a sain ar y thema Angylion. Yng Ngogledd Iwerddon mae cofeb ryfel newydd sy’n dangos Angylion Mons newydd gael ei chodi. Mae’r cyfan yn dangos sut y mae’r sïon am Angylion yn disgyn o’r nefoedd ac yn achub milwyr Prydain ym Mrwydr Mons, a ymledodd drwy Brydain yn ystod gwanwyn 1915, yn dal ar led heddiw.

Chwaraeodd yr awdur o Gymru, Arthur Machen, a’i stori fer, ‘The Bowmen’, rôl allweddol yn hyn oll ac roedd Machen yn honni mai ei stori ef a ysbrydolodd yr holl hanesion hyn. Cyhoeddwyd ‘The Bowmen’ am y tro cyntaf mewn papur newydd ym mis Medi 1914, ac fe’i cyhoeddwyd mewn llyfr poblogaidd iawn ym mis Awst 1915.

Yn y sgwrs hon â darluniau, bydd yr arbenigwr Gwilym Games yn archwilio sut yr ysbrydolodd y straeon rhyfedd hyn bregethau, pamffledi, caneuon a hyd yn oed ffilm yn 1915, a bydd yn archwilio pam yr oedd rhai pobl ym Mhrydain mor barod i gredu bod angylion yn brwydro drostynt, a pham y mae rhai’n dal i gredu hynny heddiw. A oedd unrhyw sail i’r straeon o gwbl, neu a oeddent yn gynnyrch rhithweledigaethau a sïon rhyfel, neu bropaganda Prydeinig hyd yn oed?

### 3 Awst 2015 - 5 Awst 2015
### 11:00-13:00 a 14:00-16:00

**Gweithgaredd i’r teulu: ‘Cardiau Post a’r Rhyfel’**

Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru

www.amgueddfacymru.ac.uk/sainffagan/ymweld/

Dewch i ddylunio eich cerdyn post eich hun a dychmygu eich bod yn ysgrifennu adref o’r ffosydd neu’n ysgrifennu at filwr yn y rhyfel.

### 5 Awst 2015 - 11 Tachwedd 2015

**Arddangosfa: Wynebau’r Rhyfel Byd Cyntaf**

Amgueddfa’r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig, Castell Caernarfon, Caernarfon, Gwynedd, LL55 2AY

www.rwfmuseum.org.uk/cym/index.html

Casglu ac arddangos manylion a ffotograffau pob un o’r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig a fu farw yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Ymgyrch ledled y wlad i chwilio am ffotograffau, gyda help cymdeithasau hanes, prosiectau cofebau rhyfel, archifau sirol a gwirfoddolwyr er mwyn dod o hyd i dros 10,500 o ffotograffau o’r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig a fu farw yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Helpwch ni i aduno’r Gatrawd drwy ddod â’r bechgyn hyn adref.

Pob dyn yn cael ei goffáu yn yr Amgueddfa adeg canmlwyddiant ei farwolaeth.

Cysylltwch â ni drwy ffonio 01286 673362 neu e-bostio rwfmuseum1@btconnect.com os gallwch ein helpu neu os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch.

### 8 Awst 2015 a 09 Awst 2015

**Gweithgaredd i’r teulu: Y Chwarelwyr**

Amgueddfa Penmaenmawr

www.penmaenmawrmuseum.co.uk/Cymraeg/

Ymunwch â ni i goffáu’r Chwarelwyr a aeth i frwydro ar 10 Awst 1915 ym Mae Suvla, drwy gymryd rhan mewn penwythnos o weithgareddau i’r teulu cyfan. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i’n tudalen Facebook neu cysylltwch â’r amgueddfa.

### 11 Awst 2015 - 14 Awst 2015
### 11:00-13:00 a 14:00-16:00

**Gweithgaredd i’r teulu: ‘Cerddoriaeth a’r Rhyfel’**

Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru

www.amgueddfacymru.ac.uk/sainffagan/ymweld/

Dewch i ddarganfod sut yr oedd cerddoriaeth yn cael ei defnyddio i godi calon pobl yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, a dewch i roi cynnig ar greu rhai offerynnau eich hun.

(llun yn y cefndir) Dynion Bataliwn 1af Morgannwg, 265ed Brigâd (Howitzer), y Magnelwyr Maes Brenhinol, y 53fed Adran (Gymreig), tua 1916. Trwy garedigrwydd Amgueddfa Cymru

# MEDI 2015

## Medi 2015 - Ionawr 2016

**Arddangosfa: 'Gwaith a Buddugoliaeth - Diwydiant Cymru a'r Rhyfel Byd Cyntaf'**

Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru

www.amgueddfacymru.ac.uk/bigpit/ymweld/

Câi'r degau o filoedd o ddynion o Gymru a aeth i ymladd yn Ewrop eu cefnogi gan filoedd lawer yn rhagor o ddynion a oedd yn gweithio mewn diwydiannau hanfodol, ac roedd menywod yn aml yn ymuno â nhw am y tro cyntaf. Mae'r arddangosfa hon yn ystyried beth a gynhyrchwyd ganddynt, sut y cyfrannodd hynny at yr ymdrech i ennill y rhyfel, a beth oedd effaith y rhyfel ar ddiwydiant yng Nghymru.

---

## Medi 2015 - Ionawr 2016

**Arddangosfa: 'Dai a Tomi'**

Amgueddfa Wlân Cymru, Dre-fach Felindre

www.amgueddfacymru.ac.uk/gwlan/ymweld/

Cewch glywed hanesion personol glowyr a aeth i'r rhyfel fel twnelwyr.

# HYDREF 2015

## 8 Hydref 2015 6:00yh

**Darlith: 'Bywyd a Marwolaeth yr Is-gyrnel yr Arglwydd Ninian Crichton-Stuart'**

Castell Caerdydd

www.castell-caerdydd.com/digwyddiadau

Ym mis Hydref 1915, cafodd brawd yr Arglwydd Bute, yr Arglwydd Ninian, ei ladd wrth ymladd ar Ffrynt y Gorllewin. Mae'r ddarlith hon gan ei wyres Marietta Crichton-Stuart yn datgelu rhai nodweddion o'i gwaith ymchwil ar yr aelod dewr a dyngarol hwn o'r teulu Bute.

---

## 16 Hydref 2015 - 20 Mai 2016
## 10:00yb - 5:00yp

**Arddangosfa: 'Rhyfel, Er Gwaeth, Er Gwell?'**

Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru, Stryd Fawr, Caerllion, NP18 1AE

http://www.amgueddfacymru.ac.uk/rufeinig/ymweld/

Arddangosfa sy'n ystyried y pethau da a'r pethau drwg sy'n deillio o ryfel. O ddiwylliant a meddygaeth i ddatblygiadau technolegol sy'n ymestyn y canrifoedd o gyfnod y Rhufeiniaid i'r Rhyfel Byd Cyntaf, ceir llawer o bethau na fyddent efallai erioed wedi digwydd pe na baem wedi mynd i ryfel.

---

## 27 a 29 Hydref 2015
## 11:00-13:00 a 14:00-16:00

**Gweithgaredd i'r teulu: 'Meddygaeth a'r Rhyfel'**

Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru

www.amgueddfacymru.ac.uk/sainffagan/ymweld/

Dewch i ddarganfod mwy am rôl bwysig meddygaeth yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf a sut y newidiodd y rhyfel y byd meddygol. Cynhelir y gweithgaredd yng Nghastell Sain Ffagan a gâi ei ddefnyddio fel ysbyty yn ystod y rhyfel.

# TACHWEDD

## 07 Tachwedd 2015 10:50yb

**Gwasanaeth Coffa**

Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru

www.amgueddfacymru.ac.uk/sainffagan/ymweld/

Gwasanaeth blynyddol i goffáu'r sawl a fu farw, wrth ymyl Cofeb Ryfel Trecelyn yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru.

---

## 8 Tachwedd 2015
## 11:00-13:00 and 14:00-16:00

**Gweithgaredd i'r teulu: 'Creu Pabi'**

Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru

www.amgueddfacymru.ac.uk/sainffagan/ymweld/

Dewch i nodi Sul y Cofio drwy greu eich pabi eich hun.

# RHAGFYR 2015

## 5 a 6 Rhagfyr 2015

**Gweithgaredd i'r teulu: 'Nadolig a'r Rhyfel'**

Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru

www.amgueddfacymru.ac.uk/sainffagan/ymweld/

Dewch i ddarganfod sut y câi'r Nadolig ei ddathlu yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, yn y rheng flaen a gartref. Rhowch gynnig ar greu'r addurniadau a'r cardiau Nadolig a oedd ar gael adeg y rhyfel. Dewch i ddarganfod mwy am y gêm bêl-droed a gynhaliwyd adeg y Nadolig yn 1914, a ddaeth â milwyr ynghyd o ffosydd y naill ochr a'r llall.

# IONAWR 2016

## Ionawr 2016 - Ebrill 2016

### Arddangosfa: Rhyfel mewn llenyddiaeth Gymreig

Hengwrt, Llyfrgell Genedlaethol Cymru

www.llgc.org.uk/cy/

Bydd yr arddangosfa yn edrych ar lenyddiaeth mewn gwahanol ryfeloedd, gan gynnwys y Rhyfel Byd Cyntaf.

---

## 1 Ionawr 2016 - 16 Ionawr 2016

### Arddangosfa Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub: Gobaith yn y Rhyfel Mawr

Neuadd Pentref Porth Einon, Gorllewin Morgannwg

www.cymruncofio.org

Mae arddangosfa Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub, *Gobaith yn y Rhyfel Mawr*, yn coffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf.

Bydd yr arddangosfa'n teithio i amgueddfeydd Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub, gorsafoedd badau achub ac amgueddfeydd partner, a bydd yn clodfori dewrder a natur benderfynol y sawl a achubodd fywydau mewn cyfnod o wrthdaro enbyd. Mae cymunedau wedi dod ynghyd i greu arddangosfeydd rhyngweithiol a gwaith celf hynod o ddiddorol, a ariannwyd gan Gyngor Celfyddydau Lloegr.

Dyma ffordd berffaith i deuluoedd a phlant ifanc ddysgu am waith rhyfeddol gwirfoddolwyr Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

## 16 Ionawr 2016 - 9 Ebrill 2016

### Arddangosfa: Cofio dros Heddwch (Llyfr Coffa'r Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail Ryfel Byd)

Llyfrgell Genedlaethol Cymru

www.llgc.org.uk/cy

Bydd yr arddangosfa yma'n dangos y ddau Lyfr Coffa ynghyd â'u copïau digidol. Bydd yn edrych ar effaith y ddau ryfel ar Gymru, a sut ysgogodd i bobl weithio dros heddwch.

---

## 30 Ionawr 2016 - 28 Mai 2016

### Arddangosfa: Ysbrydoli'r Ymdrech

Oriel Gregynog, Llyfrgell Genedlaethol Cymru

www.llgc.org.uk/cy/

Dyma arddangosfa o'r 66 gwaith ym mhortffolio printiau 1917 *The Great War: Britain's Efforts and Ideals*, a gomisiynwyd gan y Weinyddiaeth Wybodaeth.

Rhannwyd y lithograffau'n ddau gategori 'Ideals' ac 'Efforts', ac maent yn rhoi braslun diddorol i ni o amcanion rhyfel Prydain, y gweithgarwch milwrol ac ymdrechion Y Ffrynt Cartref.

Cyfrannodd rhai o artistiaid Prydeinig enwocaf yr oes at y gyfres, gan gynnwys Augustus John, Frank Brangwyn, William Rothenstein a C.R.W Nevinson.

Mae'r arddangosfa hon yn teithio o'r Amgueddfa Genedlaethol.

# CHWEFROR 2016

## 9 Chwefror 2016 - 05 Mawrth 2016

### Arddangosfa Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub: Gobaith yn y Rhyfel Mawr


Amgueddfa Dinbych-y-pysgod, Sir Benfro

www.cymruncofio.org

Mae arddangosfa Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub, *Gobaith yn y Rhyfel Mawr*, yn coffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf.

Am ragor o wybodaeth, gweler y digwyddiad ar 1 Ionawr 2016 – 16 Ionawr 2016.

(llun yn y cefndir) Milwyr y 38ain Adran (Gymreig) yn Ffrainc yn 1916. © Amgueddfa Gatrodol y Cymry Brenhinol




**'Pwy wnaeth yr Ynysoedd bychain hyn yn ganolbwnc yr Ymerodraeth fwyaf a'r gadarnaf welodd y byd erioed?' Dyddiedig 1915. Trwy garedigrwydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru**